

ECO'R WYDDFA

RHIF 151

HYDREF 1989

Pris20c

CYDNABOD UGAIN MLYNEDD O WASANAETH



Cynhaliwyd Noson Gymdeithasol nos lau, Medi 21 yn y Ganolfan, Waunfawr, i anrhegu Nyrs Mair Williams a roddodd ugain mlynedd o wasanaeth diflino i ardal Waunfawr. Cyflwynodd meddygon y pentref, Dr R S Williams a Dr H L Roberts sic am £565 oddi wrth bentrefwyr yr ardal fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth gwerthfawr. Cafwyd noson o adloniant gyda Brian Williams wrth y piano ac Alun Mabon a Humphrey Jones yn rhoi cân neu ddwy. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i'r rhai fu'n paratoi y lluniaeth ac yn casglu o gwmpas yr ardal.

BRYN COCH I EITHIN DUON



Wali ar gae Llanrug. Stori'n llawn a lluniau eraill ar y dudalen gefn.

NID APÊL ARALL

le, rydych wedi darllen y geiriau, ond does neb wedi ymateb hyd yma.

Rydym wirioneddol angen rhywun i fod yn gyfrifol am drefnu plygu'r Eco bob mis. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, ag unrhyw un o'r golygyddion.

CYFARFOD ETO AR ÔL YR HOLL FLYNYDDOEDD



Ym 1939, ychydig ddyddiau wedi cyhoeddi'r rhyfel, daeth nifer o ffoaduriaid o Lerpwl i bentref Waunfawr, ac ymysg y rhai a ddaeth am loches i'r Garreg Fawr roedd dwy chwaer – un yn bump a'r llall yn saith oed ar y pryd. Un o'r ddwy chwaer oedd Theo(dora) Keatley a bu'n cartrefu yn y Garreg Fawr gyda Mr a Mrs Tom Williams a'r ferch Gwenlli am dair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn daethant yn rhugl iawn yn y Gymraeg ac yn ddigon naturiol o fod ar aelwyd lengar fel y Garreg Fawr, byddent yn cystadlu'n gyson yn yr Eisteddfod leol, yn wir mor dda nes annodd iawn oedd gan y beirniad un flwyddyn – neb llai na'r diweddar John Gwilym Jones – gredu nad Cymry

oeddynt.

Yn ystod yr hanner can mlynedd a aeth heibio ers hynny, ni welodd Mrs Williams na Gwenlli mo Theo na'i chwaer. Ond un prynhawn Sadwrn ar ddiwedd Gorffennaf eleni, daeth cnoc ar ddrws Mrs Annie Williams a phwy oedd yno ond Theo a'i phriod. Yna ymlaen i Ardwyn a chnoc ar ddrws Gwenlli a'r ddwy yn cofleidio'i gilydd wedi hanner can mlynedd. Er mor rhugl ei Chymraeg bryd hynny roedd wedi'i anghofio erbyn hyn ond o fynd trwy bentref y Wanfawr roedd yr hen atgofion yn dod yn ôl iddi o'i arhosiad yn y Garreg Fawr o 1939 hyd 1942.

Wele lun o Gwenlli a Theo cfo'i gilydd unwaith eto ...

GWYBODAETH AM WJG

Daeth llythyr i law yn ddiweddar oddi wrth Geraint Bowen. Ar hyn o bryd mae y cyn archdderwydd yn gweithio ar gais Cymdeithas Gogledd Cymru o Gyngor y Celfyddydau i baratoi cyfrol ar W.J. Gruffydd yn y gyfres Bro a Bywyd. Cyfrolau darluniadol sydd yn y gyfres ac y mae Geraint Bowen eisoes wedi casglu nifer o luniau o wahanol lyfrgelloedd ac archifdai.

Hyd yn hyn, nid oes ganddo unrhyw luniau yn ymwneud â'i fagwraeth ym Methel, megis lluniau cynnar o'r ysgol gynradd – yr adeilad, grwp o blant (gorau oll, wrth gwrs, pe bai un ar gael a W.J. Gruffydd ynddo), neu o unrhyw gofnod mewn llyfr cofre-

stru, neu lyfr marcio; mewn gair, unrhyw dystiolaeth ffeithiol iddo fynychu'r ysgol. Byddai Geraint Bowen yn gallu trefnu i ffotograffydd proffesiynol wneud copïau o unrhyw luniau. Bydd yn ymweld â Bethel yn y dyfodol agos i'r pwrpas o dynnu lluniau o 'Gorffwysfa', ei gartref yn Saron, o'i gapel, o'i garreg fedd ac o'r Ywen yn Llanddeiniolen.

Yn ystod ei ymweliad â'r ardal, bydd yn aros gyda'i ferch, Mrs Siân Harris a'i theulu yn Nhyddyn Andrew Uchaf.

Gallwch gysylltu â Geraint Bowen drwy anfon gair ato y Hen Reithordy, Tal-y-llyn, neu alw Abergynolwyn 2...

ECO'R WYDDFA

RHIF 151
HYDREF 1989

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwynhaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwynhaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniol (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, HYDREF 26
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
HYDREF 17
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

DYSGU CYMRAEG

Annwyl Olygydd,

O ddydd Sul Medi 24 ymlaen
roedd papur newydd o'r enw
ACEN yn cael ei gyhoeddi yn
rhad ac am ddim o fewn y papur
Sul, Wales on Sunday.

Papur pedair tudalen tabloid
yw ACEN wedi'i anelu'n bennaf
at ddysgwyr eithaf profiadol ond
a fydd hefyd o ddiddordeb i
Gymry Cymraeg.

Fe fydd yn cynnwys straeon
newyddion caled yn ogystal â
rhaid ysgafnach. Hefyd bydd yn
cynnwys chwaraeon, croesair a
chartwn ac ati.

Mae'r papur yn rhan o gynllun
dros gyfnod o dair blynedd i
gynyddu'r nifer o siaradwyr
Cymraeg.

Bydd rhaglen deledu ar gyfer
dysgwyr, sef 'Bwrw 'Mlaen', yn
ymddangos yn wythnosol ar S4C
o ddydd Gwener, Medi 22
ymlaen. Hefyd, bydd HTV Cymru
yn paratoi bwletin newyddion
wythnosol i ddysgwyr o ddydd
Sul Medi 24.

Hywel Trewyn
(Golygydd ACEN)
Wales on Sunday
Thomson House
Havelock Street
CAERDYDD CF1 1WR

Annwyl Olygydd,

Tybed a gafodd rhai o'ch dar-
llenwyr brofiad fel hyn: Mynychu
dosbarthiadau nos yn ffyddlon
trwy'r gaeaf yn ceisio dysgu iaith
estron cyn mynd ar wyliau haf,
wedyn yn cyrraedd pen eich taith
yn llawn frwdfrydedd, llwyddo
magu digon o blwc i fentro siarad
gyda un o'r brodorion y wlad, a
chael nhw'n ymateb yn Saesneg.

Trueni ynte? Ond y buasai'r
sefyllfa yna yn gyfarwydd iawn i'r
rhan helaeth o ddysgwyr
Cymraeg yn ardal Eco'r Wyddfa
wrth iddynt ceisio defnyddio eu
Cymraeg tu allan i'r dosbarth.
Mae'n amhosibl dysgu iaith y tu
mewn i ddosbarth yn unig, mae
eisau ymarfer cyson gyda siarad-
wyr yr iaith yn ogystal â gwersi
ffurfiol.

Mewn ymateb i'r sefyllfa yma,
Rwyf yn chwilio am ffyrdd i roi'r
cyfle i ddysgwyr siarad yr iaith yn
y gymuned leol a hoffwn glywed
gan rhywun sydd â diddordeb
mewn cynnal cyfarfodydd, gwei-
thgaredda ac ati yn ardal Eco'r
Wyddfa i helpu dysgwyr defnyd-
dio eu Cymraeg.

yn gywir
John Clark
13 Y Ddôl
Bethel
Caernarfon
Ffôn: Y Felinheli 671331

"PADARN" YN GALW AM GEFNOGAETH

Annwyl Olygydd,

Fel sydd yn hysbys i bawb bel-
lach, cyfarfod o'r Cyngor llawn
ar nos Lun, Hydref 23ain yn
swyddfeydd newydd Cyngor
Arfon, yn Penrallt, Caernarfon
am 6.30 fydd yn penderfynu a
fydd datblygiad Glyn Rhonwy ar
linellau Cwmni Leading Leisure
o Southampton, yn mynd ymlaen
ai peidio ar gyfer ei ystyried gan
yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn eu
cyfarfod ar y 6ed o Fedi methodd
Pwyllgor Cynllunio y Cyngor ac
argymhell i'r Cyngor llawn sut y
dylent benderfynu ar y mater
hwn.

Y gwir amdani yw mai pwysau
o du'r cyhoedd sydd wedi
gwneud i Gynghorwyr Cyngor
Arfon ailfeddwl ynglyn ac estyn
cefnogaeth i fwriadau Cwmni
Leading Leisure. Dyna felly
paham ei bod mor hanfodol
bwysig i BAWB amgynnull tu
allan i swyddfeydd newydd y
Cyngor am 6.00 ar y 23ain, fel y
gallwn ddangos i'r Cyngor bod y
gwrthwynebiad mor gryf ac eri-
oed i'r datblygiad dinistriol hwn.
Mae pob un doeth a chyfrifol yn
ein mysg yn gwybod bod y dat-
blygiad dan sylw yn mynd i olygu
yr hoelen olaf yn arch bywyd

cymdeithasol, ieithyddol a diwyl-
liannol y fro hon. Mae hyn yn
bris llawer rhy uchel i'w dalu.
Felly cofiwch ddod i ddango's
eich ochr.

Llawer o ddiolch,
Yn gywir iawn
Glyn Tomos (Cadeirydd)
Pen y Bwlch,
Dinorwig,
Caernarfon.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI (Deiniolen a'r Cylch)

i'w chynnal yng Nghapel
Ebeneser, Deiniolen
27 a 28 Hydref 1989

Beirniaid:
Cerdd: Mr T. Gwyn Jones,
Llanfairfechan
Adrodd: Mrs Madge Hughes,
Llandwrog
Llên: Mr Maldwyn Thomas,
Bangor

Ysgrifennydd:
Mr. R. Williams,
4 Tai Caradog
Deiniolen.

CERDYN CREDID CYMRAEG

Annwyl Olygydd,

Rwyf mewn cysylltiad â chwmni
credyd 'Mastercard' sydd yn fod-
lon paratoi cerdyn credyn yn
Gymraeg pe bai ymateb digonol.
Gall unrhyw un sydd eisoes yn
defnyddio 'Access' neu 'Visa'
dderbyn 'Cerdyn Cymru', ac ar
ben hynny, bydd yn bosibl i bobl
dros 18 mlwydd oed, sydd heb
gerdyn credyd ar hyn o bryd,
wneud cais.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i mi
brofi bod nifer sylweddol o bobl
yn dangos diddordeb ac yn
awyddus i gael 'Cerdyn Cymru'.
Pwrpas y llythyr hwn yw gofyn i
fudiadau ac unigolion ysgrifennu
ataf gydag enwau a chyfeiriadau
pobl sydd yn awyddus i dderbyn
ffurflen gais ynghyd â mwy o
fanylion. Mi fyddwn yn pwyso, yn
ogystal, am fwy o ddefnydd o'r
Gymraeg yn yr holl drefn cardiau
credyd. Mae'r cwbl yn dibynnu,
wrth gwrs, ar yr ymateb i'r
llythyr hwn, ac edrychaf ymlaen
at gael eich ymateb yn y dyfodol
agos.

Yr eiddoch yn gywir,
Eurwen Edwards
(Cadeirydd)
d/o Cyngor Gwasanaethau
Gwirfoddol Clwyd
Ffordd yr Orsaf,
Rhuthun,
Clwyd LL15 1BP
Ffôn: Rhuthun 2441/3805

£5 AM ENGLYN!

Telir £5 o wobwr i'r cyntaf i dden-
hongli'r englyn yma cyn dyfodi-
ad y rhifyn nesaf:

ENGLYN RHIFNODAU

111 2 999 10 - 444
555 15 15 15,
888 888 12 12 12,
222 9 18 18 18 10.

Ateb i Mrs Nant Roberts, Arwel,
Pontrhythallt, Llanrug. Ffôn:
870760.

EISTEDDFOD LLANRUG

14 Hydref 1989

Dyddiad derbyn Llên:
Hydref 2.

Dyddiad derbyn Celf
a Chrefft: Hydref 9.

Mae croeso i unrhyw un
sy'n dymuno cymryd rhan
mewn cystadleuaeth grwp
gysylltu â'r ysgrifenyddion
i ni roi eu henwau i drefn-
wyr grwpiau.



CAAG

Fforwm Tirlun Tirwedd a Phobl

Dwy flynedd yn ôl, sefydlwyd Cymdeithas Addysg yr Amgylchfyd Gwynedd (CAAG) gyda'r amcan o feithrin diddordeb pobl lleol mewn materion cyfoes sy'n ymwneud â'r amgylchfyd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd yn ymestyn o bynciau megis Ynni Niwcliar, Twristiaeth a chadwraeth hyd at sefyllfa'r Iaith Gymraeg yng Ngwynedd. Mae'r niferoedd sydd wedi mynychu'r cyfarfodydd yma yn dyst i'r diddordeb, ac yn wir y pryder sy'n gysylltiedig â rhai o'r pynciau yma. **Cynhelir pob cyfarfod a gweithgaredd CAAG yn Gymraeg.**

Gan ddechrau ym mis Hydref 1989, mae CAAG wedi trefnu nifer o gyfarfodydd ym Mhllaw Tan y Bwlch, Maentwrog. Mae yna ddigon o amrywiaeth yn ein rhaglen - gan gynnwys darlithiau, arddangosfeydd ac ambell drafo-daeth ar y pynciau llosg a chlywir amdanynt bob dydd erbyn hyn.

Rhaglen 1989-90

Nos Fawrth, Hydref 3ydd am 7.00 cynhelir Fforwm Trafodaeth 'Cynllunio yn yr Ardal Wledig'. Ar y panel bydd cynrychilwyr o

Barc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Yr Undebau Amaeth, Cymdeithas yr Iaith.

Cewch wybodaeth aeto am y cyfarfodydd eraill.

Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb mewn pynciau cyfoes i ddod i'n cyfarfodydd. Mae yna bwyslais arbennig mewn materion sy'n berthnasol i ni yma yng Ngwynedd.

Cynhelir y cyfarfodydd i gyd ym Mhllaw Tan y Bwlch, Maentwrog am 7 o'r gloch. Y pris mynediad yw £1 gyda mynediad am ddim i aelodau'r gymdeithas. Felly - beth am ymaelodi ac ymuno yng ngweithgareddau CAAG - **Cymdeithas Amgylchyddol Cymraeg ei hiaith!**

Cysylltwch â:

Geraint George (Ysg.)

Plas Tanybwllch,

Maentwrog, Gwynedd.

Ffôn: Maentwrog 324.

FFURFLEN YMAELODI

ENW

CYFEIRIAD


SEFYDLIAD (e.e. Ysgol, Cymdeithas ayyb)

Amgaeaf arian siec o £..... fel tâl aelodaeth am y cyfnod (Sieciau i C.A.A.G)

ARWYDDWYD

TAL AELODAETH: £5

WELSH IMPERIAL SINGERS' 1926-39



Holi y mae Alun Trevor am unrhyw wybodaeth, lluniau, hanesion, rhaglenni, etc., am y Welsh Imperial Singers a ffurfiwyd ym 1926 gan eu harweinydd, R. Festyn Davies. Buont yn canu tan 1939. Roedd y Cantorion yn enwog, yn cynnal cyngherddau drwy'r wlad a hefyd yng Ngogledd America. Unawdydd efo'r grwp oedd tad Alun Trevor, y temwr Jabez Trevor (1888-1972), yn bennaf yn y blynyddoedd 1926-33. A dyna'r cefndir i'r llyfr ysgrifennodd Alun Trevor, llyfr sydd yn edrych am gyhoeddwr. Mae'n dwyn y teitl THE SONGBIRD IS SINGING, a'r is-deitl 'Scenes from a Welsh Childhood in the 1920's'. Byw ar fferm (Pen-y-Wern, Treuddyn, Yr Wyddgrug), oedd yr awdur a'i frawd, dau fachgen, wyth a naw oed, a'u tad yn canu ac yn teithio ym Mhrydain, America a Canada. Y cefndir yw dyddiau Al Capone, y Gwaharddiad ar Ddiad, trafferthion Wall Street 1929, ac yn y blaen.

Ysgrifennodd erthyglau am y Cantorion a'r canlyniad ydi bod llawer o lythyrau wedi dod (o America, Canada a Phrydain) oddi wrth bobl sydd yn cofio'r Welsh Imperial Singers. Mae nawr eisiau sgwennu Rhagair hir i'r llyfr, er mwyn rhoi eu hanes o'r dechrau (1926) i'r diwedd (1939). Mae ganddo 50 o enwau hyd yn hyn. Efallai fod rhai o'n darllenwyr yn gwybod am fwy, yn enwedig rhai o'r De a oedd ar y daith olaf i America a Chanada, 1939-39.

Ymysg y papurau sydd wedi cael eu cadw ers y Dauddegau, mae 'na ryw hanner dwsin o raglenni'r Cantorion: a poster lliw, ac yn glamp (40" x 30"), o'r flwyddyn 1926. Dyma lun yn dangos Festyn Davies, yr arweinydd, a rhai o'r Cantorion fel yr oeddynt ar y llwyfan, wedi'u gwisgo yn ffasiwn dechrau'r 19eg ganrif: cotiau coch bol deryn, gwasgodau brodedig, crysau â llewys llydan a

throwsusau tynn, a'r arweinydd mewn clos pen glin, sanau sidan a chôt bol deryn frown.

Pwy sy'n eu cofio nhw? Tybed a oes rhai ohonynt yn fyw o hyd? Os oes unrhyw un ohonoch ag unrhyw wybodaeth, boed fach neu fawr, yna buasai Alun Trevor wrth ei fodd yn clywed oddi wrthyhch. Ysgrifennwch ato yn 5 Windsor Court, Duke Street, Caer, CH1 1RP.

Pwt o wybodaeth a gawsom a fyddai, o bosib, yn procio cof rhai ohonoch: roedd y cantorion yn canu yng Nghaernarfon ar Dachwedd 11, 1926 ac yna ar Fehefin 6, 1927. Roedds tenor o'r enw Richard Macklin yn aelod, ac roedd o'n dod o Gaernarfon. (Gol.)

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**



I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-
ELWYN PRITCHARD
Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS
870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

**43 Glanffynnon
LLANRUG**

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i bedwar o bobl ieuanc y pentref fu yn dathlu eu pen-blwyddi yn 18 oed yn ystod mis Medi. Ar y 1af roedd Martin Owen, 37 Bro Rhos, yn 18 oed. Ar y 18fed roedd Andrew Jones, Garreg Goch yn dathlu ei ben-blwydd, ar y 25ain Elwyn Parry, Tan yn Buarth oedd yn dathlu ac ar y 27ain roedd Gail Williams, Ty'r Ysgol yn ddeunaw. Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar.

URDD: Cynhaliwyd pwyllgor yn ddiweddar i drefnu rhaglen gweithgareddau'r tymor nesaf. Fel arbrawf eleni, rydym yn cynnal dau sesiwn i'r aelodau bob nos lau. Ar gyfer plant dosbarth babanod uchaf, Safon 1 a Safon 2 fydd y sesiwn gyntaf, o 5.15 hyd at 6.00, ac wedyn o 6.00 hyd at 7.00 i blant safon 3 a 4, a phlant yr Ysgol Uwchradd.

Fe fydd y cyfarfod cyntaf ar Hydref 12, pryd y ceir cyfle i bawb ymaelodi. Y tâl aelodaeth fydd £2.00. Allan o'r tâl yma fe fydd £1.50 yn cael ei anfon i Aberystwyth, a 50c yn mynd i'r pwyllgor lleol, i gynorthwyo rhedeg y gangen.

Y swyddogion eleni yw: Llywydd: Geraint Elis, Trysorydd: Sian Robinson, Ysgrifennydd Cyffredinol: Glenys Griffiths, Ysgrifennydd Aelodaeth: Mair Read ac Ysgrifennydd Gweithgareddau'r Eisteddfod: Rita Williams.

CARTREFI YM MRO'R EGLWYS: Erbyn hyn mae dau bâr ifainc wedi ymgartrefi ym mro'r Eglwys. Croeso cynnes iawn i Paul a Nicola Banholzer, sydd wedi symud o Saron, ac hefyd croeso arbennig i'r ardal, i Arwel ac Ann Lewis, gynt o Dalybont ger Bangor. Gobeithio y bydd y pedwar yn hapus iawn yn ein plith yma.

MERCHED Y WAWR: Daeth nifer dda iawn i'r ysgol ar Fedi'r 13eg i noson agoriadol Merched y Wawr. Croesawyd pawb o'r hen aelodau a'r aelodau newydd gan y llywydd Mrs Glenys Griffiths. Cydymdeimlwyd â Mrs Eirlys Sharpe a Mrs Lynwen Morris, y ddwy wedi colli eu mam yn ystod yr haf. Estynwyd llongyfarchiadau i Mrs Gwyneth Williams ar fod yn hen nain. Dymunwyd yn dda i blant y pentref mewn ysgol, coleg neu waith ar ddechrau tymor newydd.

Y wraig wadd oedd Mrs Myfanwy Parry, Penisarwaun ddaeth a gwisg briodas a video o briodas ei merch Nia sef Priodasferch y Flwyddyn o'r rhaglen "Clithes Show". Roedd pawb wedi gwirioni ar y ffrog a chael pleser mawr yn edrych ar luniau'r briodas yn ogystal ar videos.

Roedd yr aelodau hyn yn adnabod nifer o'r gwesteion gan fod nain Nia'n enedigol o'r pentref.

Diolchwyd i Mrs Parry gan Mrs Eryl Roberts. Diolch hefyd i aelodau'r pwyllgor am baratoi swper blasus i bawb. Enillwyd y raffl gan Mrs Meinir Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr ysgol nos Fercher, Hydref 11eg, y gwr gwadd fydd Mr Emyr Price yn sôn am ei daith ddiweddar yn Rwsia.

PRODI: Dydd Sadwrn, Medi 2il yn Eglwys Llanddeiniolen priodwyd Miss Diana Thomas, merch Mr a Mrs Cledwyn Thomas, Llys Derfel a Mr Vincent Kenneth Williams.

Llongyfarchiadau i'r ddau a phob lwc iddynt yn eu cartref newydd yng Nghwm y Glo.

DIOLCH: Dymuna Paul a Jackie ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau, a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mherch fach Jade Ann.

DIOLCH: Dymuna John a Nia, Tyddyn Andrew, Bethel, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y llu anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas ar Fedi 2.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, 2 Medi yng Nghapel Coch, Llanberis, priodwyd Nia Pritchard Jones, Minffordd, Llanberis â Robert John Williams, mab Mr a Mrs William Arthur Williams, Cefn Isaf, Bethel. Gwasanaethwyd gan y Parch John Pritchard, BA, BD. Byddant yn ymgartrefu yn Tyddyn Andrew, Bethel. Dymuniadau gorau i'r ddau.

CYDYMDEIMLO: Estynnir pob cydymdeimlad â Mrs Ann Wyn, Ceri a'r teulu yn eu profedigaeth o golli gwr a thad annwyl. Wedi cystudd hir bu farw William yn ddim ond 53 mlwydd oed. Mae Ann Wyn yn chwaer i Miss Eleri Wyn Jones, Y Bwthyn, ac yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs John Ifor Jones, 'Hendre'. Llongyfarchiadau i Ceri ar achlysur ei graddio eleni.

DIOLCH: Wedi pum mlynedd a hanner o fod yn gyfrifol am ddosbarthu'r 'Eco' i werthwyr Bethel, mae Mr Stanley Griffiths wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Griffiths am ei waith tawel, diflino i'r 'Eco'.

PLAID CYMRU: Nos Wener, Medi ---- am 8 o'r gloch bydd Cefin Roberts yn recordio ei 'Sioe Un Dyn' yn Ffestri Cysegr. Mae croeso i bawb ddod draw i'r recordiad erbyn 7.30. Mynediad am ddim.

EISTEDDFOD BETHEL: Erbyn hyn mae Rhestr Testunnau yr Eisteddfod wedi eu dosbarthu. Gobeithio fod rhywbeth at ddant pawb ac y ceir Eisteddfod lwyddiannus eto ar Dachwedd 11.

CROESO I'R PRIFARDD YN YR YSGOL



Selwyn Griffiths gyda phlant Safon 4.

Bnawn Mercher, Medi 20 cafodd staff a disgyblion Ysgol Gynradd Bethel y pleser o estyn gwahoddiad i'r Prifardd Selwyn Griffiths i'r ysgol i'w longyfarch ar ei gamp yn ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst am ei bryddest 'Arwyr'. Roedd yn gyfle hefyd i bawb ymfalchio yn ei orchest oherwydd ei gysylltiad agos â'r ysgol lle bu'n ddisgybl ac â'r pentref lle bu'n byw hyd yn gymharol ddiweddar.

Wedi cyflwyniad gan y Prifathro, Mr I L Jones, rhoddodd y Prifardd sgwrs ddifyr i blant Dosbarth 3 a 4 yng nghwmni eu hathrawon, Mr Eifion Watkins a Miss Lowri P Roberts a Mrs Mair Read (Cadeirydd y Llywodraethwyr), am flynyddoedd ei blentynod a chefnidir y profiadau a fynegir yn y bryddest - rhai ohonynt â chysylltiad amlwg â'i gyfnod yn Ysgol Bethel. Cyfeiriodd at y fan lle'r oedd yr hen sied ar iard yr ysgol lle bu'n actio'r ornest focsio y sonnir amdani yn y gerdd. Y manau diddorol yn y pentref - Cors Tyddyn Bach a Pharc y Wern, lle'r oedd y bardd yn ail fyw gemau pêl-droed meysydd enwog fel Wembli, Goodison, Anfield a Maine Road, a manau ar gyrion y pentref fel Poncan Sipsiwn, lle'r oedd 'cowbois da' Bethel ac 'Indiaid' Felinheli yn cyfarfod.

Gwledd i lygaid y plant oedd cael gweld Coron y bardd. Cyfeiriodd y Prifardd at y ffaith nad hon oedd y Goron Genedlaethol gyntaf a ddaeth i Fethel. Bedwar ugain mlynedd yn ôl yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain 1909 yr enillodd y diweddar Athro W J Gruffydd goron am ei Bryddest 'Yr Arglwydd Rhys', ond coron bren oedd honno, nid un o arian drud-



Paned i'r Prifardd gan Michelle Whittaker, Safon 4.

fawr fel coron 1989.

Diolchwyd i'r Prifardd Selwyn Griffiths am ei sgwrs gan Miss L P Roberts, a mynegodd ei gwerthfawrogiad ar ran y plant, a fu'n cyd-drafod a mwynhau rhannau o'r bryddest gyda hi fel paratoad i ymweliad y Prifardd, am ei gyfraniad diddorol a'i sylwadau cofiadwy am brofiadau ei blentynod a roddodd fod i bryddest Coron Llanrwst 1989.

Yn dilyn, mwynhaodd pawb flasau o gacen arbennig a baratowyd i'r achlysur gan Staff Cegin yr Ysgol. Ar derfyn y prynhawn cafodd gweddill disgyblion a staff yr ysgol gyfle i gyfarfod y Prifardd. Bydd yr ymweliad yn un a crys yng ngof pawb am amser hir i ddod.



a theisen iddo yng nghwmni Sian Rickings, Iwan Hall a Mrs Mair Read. Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol.

Cyfarfod Teyrnged i SELWYN GRIFFITH

(Bardd Coronog Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy)
yn Neuadd Ysgol Brynrefail
Nos lau, Hydref 19
am 7.30 p.m.

Croeso cynnes i bawb.

Mynediad am ddim.

Newyddion am Glwb Pêl-droed Deiniolen

Rydym erbyn hyn rhyw fis i mewn i'r tymor a dyma'r cyfle cyntaf i mi gael gwneud adroddiad.

Mae'r clwb unwaith eto yn cystadlu yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch. Mawr yw dyled y clwb i'r pwyllgor gweithgar sydd wrth y llyw eleni, sef:

Cadeirydd: Mr Alun Wyn Evans;

Is-gadeirydd: Mr Owie Gibson;

Ysgrifennydd: Mr John Thomas;

Trysorydd: Mrs Pat Thomas.

Aelodau'r Pwyllgor yw Mrs Eileen Hughes; Mr Elfed Williams, Deiniol Road; Mr Bryn Jones; Mr Geraint Edwards; Mrs Gwen Griffith; Mrs Gloria Thomas; Mr Colin Worth; Mr Hefin Jones; Mr Eurwyn Jones; Mr Elfed Williams, Pentre Helen.

Mae'r pwyllgor wedi gweithio'n drwyadl iawn dros gyfnod o amser ac wedi llwyddo i gael cefnogaeth y pentref.

Mae nifer o weithgareddau wedi eu cynnal dros yr wythnosau diwethaf. Cynhaliwyd 'Sbri Awst' nos Wener, Awst 18, y noson cyn y gêm gyntaf yn erbyn Nefyn - agoriad ardderchog i'r tymor - cafwyd llawer o fwynhad y noson honno, yn enwedig gan y plant wrth fwynhau y gwahanol gemau a oedd wedi eu trefnu ar eu cyfer.

Fe fu Mr Alun Wyn Williams a

Mr Robert Iorwerth Evans yn gwerthu tocynnau raffl yn Nhafarn y Tarw a diolchwn i'r ddau am eu gwaith. Ar hyn o bryd mae Mr Alun Wyn Evans yn cynnal gêm 'Pontoon' ar delerau misol. Bydd yr enillydd yn cael £60 gan adael £50 i'r clwb a £10 i fynd i gronfa ar gyfer yr henoed.

Mae llythyrau o ddiolch ar eu ffordd i'r nifer o unigolion a masnachwyr lleol sydd wedi cyfrannu yn hael iawn i'r clwb. Mae'r arian sydd wedi cael ei godi wedi mynd at dalu:

Aelodaeth o'r Gynghrair; Aelodaeth o'r NWCFA, sef Cymdeithas Pêl-droed Gogledd Cymru; Yswiriant Chwaraewyr - mawr ddiolch i Euryr Owen fan hyn am dermau hael dros ben; Rhwydau: o'r diwedd ar ôl tymor o fenthycar rydym wedi cael rhwydau ein hunain, diolch yn fawr i Tony (Pen-y-Bont), Llanrug am fenthycar rhwydau i'r gêm yn erbyn Bethesda. Peli: peli ymarfer ac un bêl gêm 'match ball'. Mae Mrs Roberts, 'Y Tarw' wedi cynnig prynu pêl gêm arall - peidiwch â phoeni Mrs Roberts nid wyf wedi anghofio, dim wedi cael cyfle i fynd i chwilio hyd yn hyn.

Cario cefnogwyr i'r gemau oedd yn dipyn o broblem ar y dechrau, gyda'r chwaraewyr, wrth gwrs, yn

cael blaenoriaeth. Mae'r broblem yma wedi ei datrys yn ddiweddar - y Sadwrn diwethaf yn y gêm yn erbyn y Felinheli rhoddwyd benthycwys am ddim inni gan Mr Ieuan Williams o Ddeiniolen. Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i gael benthycwys bws 'Y Wellington' ar adegau hefyd, gan Dawn a Nigel. Diolch yn fawr i'r ddau hefyd am roi brechdannau i'r hogia ar ôl gemau Llanrug a Bethesda.

Mae'n debyg bod y mwyafrif bellach yn gwybod am ein hymdrechion i drïo cael yr hen gae pêl-droed i fyny yn Pen-y-bont. Doeth fydd peidio â dweud llawer ar hyn o bryd, dim ond datgan fod hyn yn rhywbeth sydd yn mynd i gymryd cryn amser, ond mae pethau yn edrych yn ffaffriol. Rwyf am yrru gwahoddiad i Gynghorwyr lleol ac i Miss Marianne Jeffries o'r Cyngor Chwaraeon i'r pwyllgor nesaf, gan fawr obeithio y byddant yn gallu bod yn bresennol.

Ymlaen i'r maes chwarae - llawer o gemau i ddechrau, 7 gêm mewn pythefnos. Llawer o chwaraewyr wedi eu anafu yn ogystal â'r rheini oedd yn gorfod gweithio'n hwyr, a hyn yn creu problemau. Coeliwch fi, roedd yn dipyn o dasg cael tîm rhesymol at ei gilydd yn y cyfnod hwn - ac wrth gofio hyn nid yw'r clwb

wedi gwneud yn rhy ddrwg. Y pwynt cyntaf yn dod ar ôl gêm gyfartal yn erbyn 'Mountain Rangers' a'r tri arall ar ôl curo Llanrug o ddwy gôl i ddim.

Ar nodyn mwy lliwgar, ni ellwch fod heb sylwi ar y dillad newydd mae'r hogia'n eu gwisgo y tymor yma - ac mae'r oll, yn enwedig y rhai mawr - wnes i ddim dweud y gair arall yna yn dechrau efo t - - naddo - yn fy sicrhau eu bod yn mynd amdanynt yn well. Diolch o galon i Trebor Thomas am gael y 'kit' newydd a hefyd am dalu hanner y gôst. Diolch yn fawr Trebor.

Os y buasai pwyntiau yn cael eu rhoi am gefnogaeth leol a nifer y cefnogwyr ar brynhawn Sadwrn, yn sicr mi fyddai Deiniolen ar gopa'r gynghrair. Mae Clwb Pêl-droed Hyn Deiniolen yn ystyried ei hun yn ffodus dros ben i gael y gefnogaeth ddilys hon gan y pentref.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael i genfogi'r clwb. Nid oes dim amheuaeth yn fy meddwl mai y gefnogaeth sydd wedi helpu i greu a sefydlu'r ysbryd da sydd yn y clwb, ymhlith y chwaraewyr a'r aelodau eraill.

TÎM NOFIO BUDDUGOL



Tîm nofio Ysgol Bethel a ddaeth yn fuddugol yn y Gala Nofio i Ysgolion Cynradd Arfon (dros 100 o blant) ddiwedd y tymor diwethaf.

AR GAEL YN EICH SIOP
LYFRAU RWAN

**STRAEON
CYFAR MAIN**
John E. Williams

Helyntion Twm Edwar a'i gyfeillion.
Ef sy'n arwain platwn yr *Home Guard*
i Benisrwaun i fomio'r Post;
ac i Gaernarfon i gipio'r Twril;
daw'n asiant lleol i'r Dyn Du
Un Daint a'i nwyddau; caiff ei
ddwylo'n ddidrafferth ar un o
ffesantod Rhos Fawr;
a chreu anhrefn
wrth fynd i nôl flôt i'r gaseg.



£2.60

Hefyd
ARRADIO CYMRU
o ddysd Sadwrn, Medi 30, ymlaen
am 12.30

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

Ffôn:
Waunfawr 552

Beth am ddod i gystadlu i EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Manylion: Bethesda 600423

Beth am ddod i fwynhau'r wled

yn Ysgol Dyffryn Ogwen

nos Wener, Tachwedd 17 am 6.30

a dydd Sadwrn, Tachwedd 18

am 12.30 a 6.00

Lluniaeth ysgafn yn yr Ysgol bnawn Sadwrn.

Cywiriad pnawn Sadwrn: Adrodd 6-8 oed:

'Gwarchod' (nid 'Gwrachod')

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL

TEGANAU, CARDIAU

MELYSION

ANRHEGION



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Svcharth (872407)

CROESO cynnes iawn i'n plith i Mrs Annie Evans (Brynrefail gynt) sydd wedi symud i fyw o Lerpwl ac ymgartrefu yn 26 Bryntirion. Yr un yw'r croeso i Sian a David Hughes sydd wedi symud yma o Lanrug. Cofiwch fod croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn ein gwahanol weithgareddau.

Pob dymuniad da i Mrs Reenie Morris, sydd wedi symud i fyw i Fryn Eglwys.

GWELLHAD: Rydym yn falch iawn o ddeall fod Darren, mab bychan Marie, yn well wedi'i arhosiad byr yn yr ysbyty. Yr un yw'n dymuniad eto y mis hwn, sef adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref.

LLONGYFARCHIADAU: Nid beirdd, adroddwyr, cantorion a dawnswyr yn unig a geir yma ym Mhenisarwaun, y mis hwn llongyfarchwn dair merch sy'n brysur amlygu eu hunain ym myd cerddoriaeth. Llongyfarchiadau i Lois Dafydd am gael anrhydedd gyda'r piano, Gradd 2; Eleri Llwyd, Gradd 1 gyda'r piano a Hefina Jones, Gradd 1 gydag anrhydedd ar y Fiolin.

Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Glyn ar gael ei dderbyn yn gyflawn aelod o Gôr y Gadeirlan.

YSGOL TAN Y COED: Bore Gwener, Medi 15fed daeth y Prifardd Selwyn Griffith i ddangos ei goron hardd i blant yr ysgol. Bu'r plant yn adrodd a chanu iddo ac roedd yntau'n amlwg yn mwynhau ei hun ymysg y plant.

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol eleni yng Nghapel Bosra, Hydref 18 am 6.00 o'r gloch. Bydd croeso cynnes i bawb. Bwriedir anrhegu Mr Len Jones, cyn-brifathro yr ysgol yn y Gwasanaeth arbennig hwn. Os dymuna unrhyw un, boed ffrind, riant neu gyn-ddisgybl gyfrannu at y dysteb, gellir ei anfon i'r Prifathro Dros Dro, Mr Selwyn Jones, aelod o'r staff neu Gadeirydd y Llywodraethwyr, Mrs Nant Roberts.

YR YSGOL FEITHRIN: Mae'r Ysgol Feithrin wedi ail ddechrau ac yn cyfarfod bob bore Mawrth ac lau am 10 o'r gloch. Mae amryw o blant newydd yn dod ac mae croeso cynnes i unrhyw fam, warchodwr a'i phlentyn ymuno.

NOSON O DDATHLU: Roedd Neuadd yr Eglwys yn llawn, nos

lau, Medi 7fed pan ddaeth y pentref ynghyd i longyfarch buddugwyr Eisteddfod Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau. Darllenwyd rhan o Ysgrif Nant Roberts gan Tony Elliott a chafwyd darlleniad o Bryddest y Prifardd Selwyn Griffith gan Arwel Jones. Adroddodd Eifion Harding un o'i adroddiadau digrif. Diolchir i Anwen, Heulwen, Bethanne a Judith am ddawnsio, i'r grawp Brâs am eu caneuon, i'r parti o famau a fu am 'Reid ar y Mul' ac i'r plant a fu'n brysur yn dysgu tri adroddiad a chân o eiddo'r Prifardd, a hynny o fewn amser mor fyr â thri niwrnod. Cyflwynwyd yr eitemau gan Phyllis Elis. Llongyfarchwyd y diolchwyd i bawb gam Mrs Pat Larsen. Cyflwynwyd blodau i Meira a Nant

(rhoddedig gan Sara Jones, Racca), potel o win i Eifion a theisen ar ffurf ei goron i Selwyn Griffith. Cafodd pawb baned a darn o'r deisen anferth a wnaed gan Rhian Price Williams. Diolchir i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y y noson.

PWYLLGOR NEUADD BENTREF: Tynnwyd Clwb Cant Medi, nos Wener, Medi 15fed a'r enillwyr oedd: 1. Brian Jones, Perthi; 2. Elinor Jones, Heather Bank; 3. R. Probert, Waun. Cynhelir Noson o 'Hwyl a Miri Calangaeaf' ddiwedd mis Hydref.

LLONGYFARCHIADAU i Sandra Jones, Ty'n Gerdd, Waun sydd newydd ennill gradd LLB yn y gyfraith gydag anrhydedd yn y Brifysgol yn Llundain.

CLWB YR HEULWEN, Medi 19: Cydymdeimlwyd â Mrs Nel Williams a Mrs M G Roberts, y ddwy wedi colli perthynas agos.

Anfonwyd cofion cynnes at Mrs Nesta Jones sydd yn y Foelas. Llongyfarchwyd pawb a gafodd lwyddiant mewn gwahanol feysydd yn ddiweddar. Diolchwyd i Mrs Larsen, Mrs Percy Williams a Mrs Gwynn Jones am wneud y te. Enillwyd y raffl gan Mrs Porter.

YSGOL SUL BOSRA: Ail-gychwynnodd yr Ysgol Sul, fore Sul Medi 10fed. Croesawyd Manon Glyn ac rydym yn siwr y bydd yn hen barod erbyn Hydref 1af i gymryd rhan gyda'r plant yng Ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd a gynhelir yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen am 2.00 o'r gloch. Trefnir bws i gludo'r plant. Bydd plant Ysgol Sul Santes Helen yn cymryd rhan ar y cyd â phlant Bosra. Gwneir casgliad yn y gwasanaeth.

EGLWYS SANTES HELEN

Gwyl Ddiolchgarwch: Cynhelir yr Wyl flynyddol o ddiolchgarwch am y cynhaeaf eleni ar ddydd Sul, 22 Hydref. Gweinyddir Cymun Bendigaid am 10.30 a.m. a bydd gwasanaeth Gosber am 4.30 gyda Mr Vernon Owen, Llandwrog yn pregethu. Dowch yn llu i gadw gwyl ac i ddiolch i Dduw am ei haelioni.

Ffair Gynhaeaf: Yn unol â'n arferiad ers sawl blwyddyn bellach, cynhelir Ffair Gynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 pm nos Lun, 23 Hydref. Bydd stondinau a raffl.

Dosbarthiadau Conffyrmasiwn: Cynhelir y dosbarthiadau yn yr Eglwys bob nos Wener am 5.30 pm o ddydd Gwener, Hydref y 6ed ymlaen.

PONT: Cynhelir cyafrod cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, nos Lun, Hydref 2 am 7.30 o'r gloch i drafod y posibilrwydd o sefydlu cangen o 'Pont' yn y pentref. Mudiad newydd yw 'Pont' a sefydlwyd i wneud rhywbeth cadarnhaol ac ymarferol ynglyn â'r bygythiad presennol i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Cydnabu 'Pont' bod y mewnlifiad mawr i Wynedd gan bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn bygwth parhad bodolaeth y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu bob dydd. Sefydlwyd 'Pont' i geisio cysylltu rhwng y Cymry brodorol a newydd-ddyfodiad i Wynedd, sydd â chydymdeimlad â phrif iaith y sir.

Croeso cynnes i bawb, ac os ydych yn adnabod pentrefwyr/cymdogion di-Gymraeg, sydd yn gefnogol i'r Gymraeg a Chymreictod, dewch â nhw gyda chi i'r cyfarfod.

ANRHYDEDDU BUDDUGWYR Y BRIFWYL YM MHENISARWAUN



Parti Cyd Adrodd 'Reid ar y Mul', er mawr ddifyrrwch i'r awdur a'r gynulleidfa.



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871781



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 3075



CURIAD CALON CYMRU

LLUNIAU O FFESANT A'R DYLLUAN FACH AR WERTH



CRONFA APÊL EISTEDDFOD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON: Atgoffir chwi o'r lluniau adar gan Islwyn Williams a gomisiynwyd gan y pwyllgor i'w gwerthu er 'Budd y Gronfa'. Mae'r ddau brint liw, sef llun Ffesant a Dwy Dylluan fach, yn perthyn i argraffiad cyfyngedig o 250 yr un, yr oll wedi eu harwyddo a'u rhifo gan yr arlunydd ei hun. Eu maint yw 20 modfedd wrth 16 modfedd mewn ffrâm a'r gôst yw £28.50 yr un, neu £47 y pâr. Gellir eu prynu hefyd am £15 yr un neu £25 y pâr heb eu fframio. Cysyllter ag unrhyw un o'r Pwyllgor neu â Dafydd Evans (872407) neu Amranwen Lynch (870575) os am archebu.

CARNIFAL Y PENTREF

Medi 11-16: Cychwynnodd y Carnifal ar nodyn buddugoliaethus nos Sul, Medi 11fed yn Eglwys Santes Helen gyda Band Ieuenctid Deiniolen; Lowri Prys Roberts yn arwain, a Bryngwyn Jones a Roberts Jones wrth yr organ. Diolchir i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y Gymanfa.

Nos Lun, Medi 12fed yn Neuadd yr Eglwys treuliodd noson ddifyr yn chwarae Bingo gyda Helen Owen yn galw.

Nos Fercher, ar gaeau Pant Hywel mwynhaodd plant yr Ysgol Gynradd a dosbarthidau 1,2 a 3 Ysgol Brynrefail gemau o bêldroed a rownderi. Roedd y timau yn agos iawn.

Nos Wener, bu nifer o blant a mamau yn gwyllo Fideo Sam Tân a C'mon Midffild. Dymunwn ddweud 'Ffanciwi' i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Sadwrn am 2.00 o'r gloch, er gwaethaf Rhagolygon y Tywydd am stormydd a gwyntoedd cryfion, gwenodd yr haul ar gystadleuwyr y Carnifal a chafwyd Carnifal o safon uchel iawn. Mwynhaodd y plant y mabolgampau hefyd yn

syth wedyn.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n cystadlu, helpu a chefnogi yr holl weithgareddau. Diolchir yn arbennig i Carys ac Arwel Jones, Pant Hywel, y Beirniaid Mr a Mrs T Woodcock a Mr Selwyn Jones, Eifion a John Arwyn yr Arweinyddion, i'r Eglwys a'r Ysgol.

Dyma'r canlyniadau:

Cymeriad o dan oed ysgol (unrhyw): 1. Manon a Catrin; 2. Urien Deiniol; 3. Haydn. **4-6 oed (un o gymeriadau Angharad Tomos):** 1. Arddurn; 2. Eurig; 3. Caren ac Erin. **Addurno Beic:** 1. William; 2. Haydn; 3. Nia Griffith. **Addurno Het:** 1. Christopher; 2. Gwenllian; 3. Hefina, Arddurn. **Cymeriad gyda cheffyl:** 1. Sioned Lewis. **Unrhyw Bâr dan 12 oed:** 1. Eryl a Dafydd; 2. Sioned ac Eira; 3. Wena ac Iwan. **Unrhyw Bâr dros 12 oed:** 1. Sioned a Hefina. **7-8 oed (Clown):** 1. Elgan; 2. Christopher; 3. Siân. **9-11 oed (Hysbyseb):** 1. Ynyr; 2. Lois; 3. Huw. **Grwp:** 1. Merch yn Archdderwydd; 2. Ifaciwîs. **11-15 oed (agored):** 1. Andrea; 2. Owen; 3. Catherine

TÎM ROWNDERI'R MERCHED



Y TÎM PÊL-DROED BUDDUGOL



Mary. **Dros 15 oed:** 1. Alwena; 2. Roberta.

Enillydd Tiws y Carnifal oedd Elgan. Rhif Iwcus - Elin Thomas; Raffl: 1. Helen Owen; 2. John Clark.

GENEDIGAETH:

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Leslie Jones, Meillionydd ar ddod yn nain a thaid ac i Mrs Annie Williams ar fod yn hen nain. Ganwyd mab bychan i Anwen ac Aled.

CARNIFAL PENISARWAUN




Grwp Buddugol - "Merch yn Archdderwydd"



YR IFACIWÎS, Ail yng Nghystadleuaeth y Grwp.



Dafydd ac Eryl - y Pâr Buddugol fel y Dywysoges Ann a'r Capten Mark Phillips.



Haydn, Emma, Karen ac Iwan yn cael reid ddiwrnod eu trip i Fferm Wningod Llanystumdwy.

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

NEWYDDION Y SEINDORF: Erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco, bydd y Seindorf wedi bod yn ymweld â Llundain. Maent yn cystadlu mewn un o'r cystadleuthau pwysicaf yn eu hanes ar y 7 Hydref, ceir mwy o hanes yn rhifyn mis Hydref, felly dymunwn bob lwc iddynt yn y gystadleuaeth.

CLWB 200 - Enillwyr mis Medi: 1, £25 (123): Margaret Williams, Rhwng-y-Ddwyrdd, Deiniolen; 2, £15 (159): Maldwyn Morris, Llanrug; 3, £10 (183): Mrs Morris, Marian Terrace, Deiniolen.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar 18 Medi gyda'r Parch W. R. Williams, Y Felinheli yn siarad ar hiwmor a chymeriadau. Diolchwyd i Mr Williams gan Mrs Beryl Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Williams, Ty'n Clwt. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 17 Hydref ac mae croeso i aelodau newydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar 4 Medi, o dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawodd Mrs Jones y wraig wadd, sef Mrs Edna Cole. Cawsom noson ddifyr gan Mrs Cole yn dangos i ni sut i gerflunio. Diolchwyd i Mrs Cole gan Mrs Eirlys Lloyd Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Lloyd Jones, Miss Beti Williams a Mrs Helen Lewis. Enillwyd y raffl gan Mrs J. Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Hydref.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r clwb uchod ar 12 Medi, pryd y cafwyd gwledd odidog trwy garedigrwydd Sefydliad y Merched, yn ôl eu harfer bob blwyddyn, a diolch yn arbennig i Mrs Glenys Williams a Mrs Helen Lewis am weinyddu mor ddygn ar y byrddau. Yn ogystal rhoddasant saith o wobrau tuag at y raffl, ac fe'u henillwyd gan Mrs Sally Lewis, Mrs Dilys Thomas, Mrs Annie M. Morris, Mrs Grace Williams, Mrs Jennie C. Hughes, Mrs Glenys Williams, a Mrs Mary Morris. Diolchwyd i'r Sefydliad gan Mrs Jane Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Megan

Morris o golli ei brawd, Mr John Emrys Morris, ac hefyd Mrs Blodwen Parry o golli ei mab, Meirion, y ddau yn frawychus o sydyn.

Dymunwyd pen blwydd hapus i Mrs Jennie Williams, a Mrs D. R. Williams, ac hefyd roeddem yn falch o weld Mrs Sally Lewis wedi dod dros ei anhwylder.

Cafodd y Clwb rodd o £55 gan deulu y ddiweddar Mrs Katie Lewis, a fu a diddordeb mawr yn y Clwb ac yn aelod ffyddlon honno am flynyddoedd maith; hefyd cafwyd rhodd o £10 gan Ysgol Gwaen Gynfi. Carem anfon ein cofion at Mr W. J. Eames, y Prifathro, sydd erbyn hyn yn yr ysbyty, gan ddymuno adferiad llwyr a buan iddo.



PRIODAS: Dydd Sadwrn, 12 Awst, yng Nghapel Seion, Talysarn, priodwyd Miss Tracey Rotherham, merch Mr a Mrs John Robert Rotherham, Cae Madog, a Mr Ceirion Thomas, mab Mr a Mrs Cledwyn Thomas, 4 Dinorwig Terrace, Clwt-y-Bont, Deiniolen.

Dymuna Ceirion a Tracey Thomas ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

DIOLCH: Dymuna Meinir, Eirian ac Irfon, plant y diweddar J. E. Morris, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl.

Dymuna teulu y diweddar Mr Meirion John Parry, Tir-na-Nog, Bryn Moelyn, Llanrug, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau, llythyrau a galwadau ffôn sydd yn rhy niferus i'w hateb, a llawer a ymwelodd â hwy. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth ac i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau. Trosglwyddwyd y rhoddion tuag at Ymchwil Clefyd y Galon.

TEYRNGED i'r ddiweddar Mrs Katie Parry. Ar y 24ain o Awst bu gwasanaeth angladd y ddiweddar Mrs Katie Parry yn Amlwgfa Bangor. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Phillip Barnett, Tregarth. Cyn iddi symud i fyw i'r Rhiwlas bu Mrs Parry yn byw yn 15 Hafod Oleu ac yn Caradog Place. Yr oedd hi â'i gwr y diweddar William John Parry yn ffyddlon iawn yng nghapel y Tabernacl ac yn barod iawn eu croeso i'r rhai fyddai'n dod i wasanaethu'r Capel. Yr oedd Mrs Parry yn barod iawn ei chymwynas a'r bob achlysur pan oedd yn byw yn Hafod Oleu a llawer iawn o'i chymdogion wedi profi ei charedigrwydd. Cydymdeimlir â'r plant, Gwenlyn a Margaret a'u teuluoedd.

Y GANOLFAN: Mewn cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan, a gynhaliwyd nos Fawrth, 19 Medi, penderfynwyd ymdrechu i gadw prisiau hurio'r Ganolfan ar y raddfa sydd wedi bodoli am y chwe mlynedd diwethaf. Adroddwyd ar y trafferthion achosir trwy i fudiadau ganslo ar y funud olaf eu cais am ddefnyddio'r Ganolfan. O hyn ymlaen bydd y Pwyllgor yn glynu yn haearnidd at y rheol sydd yn mynnu taliad llawn am y Ganolfan oni cheir o leiaf dridiau o rybudd na fyddir am ei defnyddio ar ddiwrnod penodol. Mae aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol bod cyflwr y Caban yn dirywio ers rhai blynyddoedd, a chan nad oes siawns i'r Cyngor Sir ymgymryd â'r cyfrifoldeb yn wyneb cyfyngiadau'r Llywodraeth, bwriedir ymgymryd â phaentio a chymennu'r ystafelloedd trwy lafur gwirfoddol yn y dyfodol buan. Trefnwyd i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Ganolfan, am hanner awr wedi saith, nos Wener, 15 Rhagfyr. Tila iawn fu'r gefnogaeth i'r Cyfarfod hwn yn y gorffennol, a hyderir felly y bydd y rhag-hysbysiad hwn gan y Pwyllgor yn foddion i bentrefwyr gadw'r dyddiad mewn cof.

CYNGOR EGLWYSI: Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgrwch am y Cynhaeaf yn Festri Cefnywaun, am a saith o'r gloch nos Lun, 9 Hydref. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

JOHN EMRYS MORRIS

Tra ar ymweliad â'i gymdogion Mr a Mrs Vaughan Evans, bu farw'n ddisymwth ac annisgwyl John Emrys Morris, 1 Tai Dinorwig, Clwt-y-bont, ar 28 Awst, yn 76 mlwydd oed.

Fe'i hadnabyddid yn y gymdogiaeth fel gwr diymhongar, didwyll a diwylliedig. Bonheddw'r wrth natur, un oedd a'i gyfarchiad yn gyfeillgar, a'i groeso'n gynnes. Cyfranodd i amrywiol gymdeithasau'r pentref, a'r cyfraniad hwnnw'n ddi-feth yn gyfoethog a goleuedig. Gwr cadarn ei safiad tros y gwerthoedd oedd annwyl iddo a'i amddiffyn trostynt yn ddi-wyro.


Hannai o deulu sydd wedi dal cysylltiad agos gyda Seindorf Arian Deiniolen. Roedd y 'Band' yn bopeth iddo. Meistrolodd wahanol offerynnau'r seindorf, a bu'n Arweinydd iddi tros gyfnod gloyw yn ei hanes. Ymgymrodd â chasglu a chyhoeddi llyfryn yn olrhain hanes y Seindorf ar achlysur dathlu ei thrydydd Jiwibili ym 1985. Ni fedrech fod yng nghwmni John yn hir cyn i'w gefndir a'i ddiddordeb cerddorol frigo i'r wyneb, a chael hanesyn llon neu leddf yn ymwneud a'r 'Band'. Roedd yn storiwr dawnus, gyda fflach ei lygaid a'i wên heulog yn goreuro pob stori.

Os 'Bandiwr', yna Bedyddiwr hefyd fel ei hynafiaid. Yn fuan wedi iddo briodi a symud o Ddinorwig i Glwt-y-bont i fyw, fe'i hetholwyd yn ddiagon yn Eglwys Libanus. Llanwodd y swydd honno gydag urddas am ddwy flynedd a deugain. Bu'n drysorydd yr Eglwys, ac yn athro Ysgol Sul am flynyddoedd lawer. Fe'i hadwaenid gan bregethwyr fel gwrandawr awchus, un a'i 'Amen' yn hwb a symbyliad i'w Weinidog ac eraill. Cyflawnodd gymwynasau di-ri' i Eglwys Libanus, y mwyafrif ohonynt yn y dirgel, ac yn ddi-sôn amdanynt. Gedy fwch mawr ar ei ôl, a bydd y gymdogiaeth lawer tlodach o golli ei ffraethineb a'i gymwynasau.

Yn absenoldeb anorfod ei Weinidog gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch William John Lewis, Gaerwen, yn cael ei gynorthwyo gan Y Parch Richard Jones, Cwmgor, a'r Prifathro Emeritws G. R. M. Lloyd, Bangor. Roedd capel Libanus yn orlawn i wrando teyrnged gyfoethog y Parch W. J. Lewis - a

Am bob math o
WYDR wedi ei
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 870486

Wavell
Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



CYNLLUN
ORIAU HAMDDEN

Edrychwn am bobl o bob oed a chefnidir i fod yn rhan o'r cynllun unigryw hwn i agor drysau newydd ac ehangu profiad ein gweithwyr o'r byd mawr o'u hamgylch. Os ydych yn byw yn Arfon beth am rannu eich amser rhydd gyda gweithwyr Antur Waunfawr.

Cysylltwch a: GRACE JONES neu HYWEL V. EVANS
Bryn Pistyll, Waunfawr, Caernarfon. Ffôn: Waunfawr 721.

oedd wedi treulio'i febyd o fewn tafliaid carreg i gartref John - i fywyd a chyfraniad John i'r ardal. Wrth i'r cynhebrwng gyrraedd Mynwent Macpelah roedd cyfeiliant y Seindorf fel pe'n tanlinellu'n colled a thristwch yr amgylchiad.

Eiddunir dedwyddwch i'r teulu yn eu galar.

Y Parchedig JOHN PRICE WYNNE

Ein braint y mis hwn yw cael cynnwys tudalen o bapur bro cylch Caerfyrddin, sef 'Y Cwlwm'. Fel y gwelwch, telir yma deyrnged i'r Parch John Price Wynne, a fu'n weinidog yr un mor ffyddlon ac effeithiol yma yng Nghefnywaun a Dinorwig o 1958 hyd 1972. Mae gennym atgofion melys amdano, ac am ei briod, Mrs Wynne, sydd bellach yn byw yn Llanfairpwllgwyngyll, ac am y plant, a gawsant eu haddysg uwchradd yn Ysgol Brynrefail.

Dyfynnir yma o'r papur:

DADORCHUDDIO COFEB

Ar brynhawn Sul, 7 Mai 1989, croesawyd y gynulleidfa ym Methel, Cynwyl, gan y gweinidog, Y Parchedig Haydn Richards, i oedfa o addoliad i Dduw ac o ddiolch am wasanaeth difflino y diweddar Barchedig John Price Wynne, i Eglwys Crist, ar hyd y blynyddoedd. Yn ystod yr oedfa, dadorchuddiwyd cofeb i'w weinidogaeth.

Talwyd teyrnged ddiwyll i'r diweddar Barchedig J. P. Wynne, ar ran aelodau Bethel, gan Mr Edgar Jones, Arosfa, Hafod Cwnin, un o flaenoriaid yr Eglwys. Dywedodd bod y gair 'cofio' yn air allweddol yn yr oedfa gymun arbennig hon; cofio am y Mab a ddioddefodd drosom a chofio am Was a fu'n ffyddlon i'w Arglwydd. Bu'r Parchedig J. P. Wynne yn weinidog ar Eglwys Bethel am ddeuddeg mlynedd o 1972 hyd ei farw disyfyd ym 1984. Roedd yn bersonoliaeth hawddgar, yn fugail da ac yn weinidog profiadol. Bu'n weithiwr ffyddlon yn y winllan ac yn was diball i'w Arglwydd.

Dymuniad aelodau Bethel oedd gosod cofeb i'w cyn-weinidog yn y capel, a dadorchuddiwyd y gar-


reg gan ei weddw, Mrs E. Wynne. Diolchodd am gael bod yn bresennol i gyflawni'r dadorchuddio a diolchodd i'r rhai a fu'n cydweithio'n ffyddlon gyda'r Parchedig J. P. Wynne yn ystod ei weinidogaeth, ac yn cyd-alaru gyda'r teulu o'i golli.

Yr adnod a osodwyd ar y gofeb, sef 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, canys hwy a elwir yn blant i Dduw' oedd testun pregeth y gweinidog. Cyfeiriodd at dystiolaeth yr aelodau i'w cynweinidog, sef ei fod yn dangnefeddwyr, yn wir heddychwyr, yn dilyn esiampl ei Arglwydd ac

yn was ffyddlon iddo.

Dilynwyd y bregeth gan yr ordinhad o Swper yr Arglwydd.

Pleser oedd cael croesawu Mrs E. Wynne, Mari, Nia, Eurig a'u teuluoedd i Fethel, unwaith yn rhagor. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu.



CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Caernarfon 3536

CRONFA CAE CHWARAE: Cynhaliwyd barbaciw lwyddiannus ar sgwâr y pentref nos Fercher, 30ain Awst. Trwy werthu tocynau, cynnal rafflau a mwynhau codwyd y swm o £61 tuag at redeg digwyddiadau amser Nadolig, a drefnwyd gan Bwyllgor Cae Chwarae.

CROESO: Croeso cynnes iawn i Peter Wyn a Rhian a'u plentyn bychan sydd wedi symud i fyw i Isfryn, Tai Glangwna. Mae gwreiddiau'r ddau yn Nyffryn Conwy ac mae Peter yn dysgu Crefft, Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Uwchradd Botwnnog.

SBWRIEL: Yn ddiweddar gwelwyd llawer iawn o sbwriel ar strydoedd y pentref, rhywbeth nad oes ei angen. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi gosod tri bin sbwriel yn y pentref. Os yw'r pentrefwyr yn meddwl bod angen mwy o finiau dylent gysylltu â'r Cyngorwyr Cymuned: Ifor Hughes neu Clive James.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Pregethir gan y canlynol yn ystod mis Hydref am 2 y prynhawn - 1af: T Elwyn Hughes; 8fed: Harold P Jones; 15fed: I B Griffith; 22ain: Albert Jones (5.30); 29ain: Gareth Maelor.

PLAID CYMRU: Cynhelir Arwerthiant Cist Car ym maes parcio Tafarn y 'Newborough', Bontnewydd fore Sadwrn, 7 Hydref. Caiff y gwerthwyr gyrraedd am 9.30 am gost o £3.50 y car, a'r prynwyr o 10.00 ymlaen - mynediad 20c y pen.

SIOE'R PENTREF: Cynhelir Sioe Cynnyrch Gardd a Ty'r Pentref ar ddydd Sadwrn, 8 Awst 1990. Yn nosbarth 4 yr eitemau o waith llaw fydd:

1. Gwau neu grosio unrhyw ddilledyn ar gyfer plentyn o dan 10 oed;
2. Gwau neu grosio unrhyw ddilledyn i ffitio oedolyn;
3. Unryw eitem o grefftwaith ar gyfer y ty (e.e brodwaith);
4. Gwnio unrhyw ddilledyn; Felly bydd digon o amser i wneud y gwaith llaw yn ystod nosweithiau hir y gaeaf.

CYNGOR CYMUNED: Yn ystod y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor trafodwyd y pwyntiau canlynol:

1. Disgwyl ymateb oddi wrth Wersyll Glangwna ynglyn â chaniatâd i drwsio llwybr Prysgol. Roedd arian mewn llaw ar gyfer y gwaith.

2. Penderfynwyd argymhell i Gyngor Bwrdeisdref Arfon roi'r enw, 'Stâd Glandwr', ar y tai newydd ar lon Caernarfon.

3. Nodwyd fod amserlen newydd bysus Crosville wedi dechrau, a bydd y Cyngor yn cadw llygad ar brydlondeb y gwsanaeth.

4. Bydd Heddwas yr ardal ym mynychu'r cyfarfod ar 22ain Tachwedd a gellir cynnig materion i'w trafod i'r Cyngorwyr Cymuned.

5. Cafwyd esboniad gan gynrychiolydd o Gymdeithas Tai Eryri am eu cynlluniau ar gyfer yr ardal. Gofynnwyd am syniadau am safleoedd lle, efallai y bydd y perchennog yn fodlon gwerthu'r tir yn is na phris adeiladu. Yn ogystal bydd rhaid gwybod â oes galw lleol am dai pe bai arian ar gael gan y Gymdeithas.

6. Gwrthodwyd cais gan y Cyngor i Gyngor Arfon ddarparu safle parcio ger hen safle'r caban ffôn er mwyn clirio mwy o le i draffig basio drwodd.

TAITH GERDDED: Siomedig fu'r gefnogaeth i'r daith gerdded i hel arian tuag at gronfa Eisteddfod yr Urdd. Er hynny, dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r plant a wnaeth ymdrech, ac i'r holl noddwyr, ac yn arbennig i Mrs Einir Roberts a drefnodd y daith.

DYMUNIADAU GORAU: i Gwenno Hughes, Ty Mawr a Iolo Morris Roberts, Gerallt sy'n dechrau ym Mhrifysgol Bangor; hefyd i Mrs Margaret Lovell, Drwsy-Coed, sydd wedi cael llawdrini-aeth yn ddiweddar. Dynunwn iddi lwyr wellhad.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Dilys Griffiths, Delfryn, ar farwolaeth ei thad yn Rhuthun.

BRO SYR T. H. PARRY-WILLIAMS

Do fe ddaeth 'cric i gyhyrau Eryri', Ar ôl ei farwolaeth o, A daeth mwy na 'chrac i dalcen Ty'r Ysgol'.

Pan ddi-berfeddwyd ei fro; Oherwydd dont yma ar fwrwr Sul, Pan fo copa'r Wyddfa'n wyn, I ddringo gyda'u rhaffau neilon, Fel rhyw blâ o chwain, neu chwyn!

Cyn bo hir, ni fydd angen defaid yma,

I fagu wyn a phori ar y moelydd; Mae pebyll a charafannau'n fwy ffasiynol,

Rhaid paratoi ar gyfer pob ymwelydd;

Mae'r werin a'r bugeiliaid yn rhy hen ffasiwn

Wrth gadw traddodiadau ein cefn gwlad,

Mae porthi yr ymwelydd yng ngwlad y delyn

Yn rhoddi arian yn y banc, pwy a wâd?

A diolch i'r lor, am barc mor genedlaethol,

Sef un sy'n bod o fewn cylch yr Wyddfa;

Dyw carafannau'r Sais a'i holl dentiau

Yn amharu dim ar harddwch yr olygfa!

Bydd geiriau'r laith Gymraeg ar dâp mewn amgueddfa!

Fel parch i gofio am hen Gymro Fu'n rhygnu byw ar erwau'r grug a'r eithin

A'i frwydr ddewr i gadw'i iaith rhag mynd yn atgo'.

John V. Morris,
Rhianfa, Deiniolen.

TRIP SIOPA 'DOLIG i Manceinion

dydd Sadwrn - Tachwedd 18^o -
Sgwâr dan 730-800 y bore!

PRIS: £4.00 GYMERER A: Mair Morris
Telffones 881705



CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich Cartref E. Ll. Parry M.S.S.Ch., M.B.Ch.A. 57 Glanffynnon LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

GWILYM H. WILLIAMS BRYN DAIRY 2 BRYNHYFRYD BETHEL

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

GOLYGFA O BEN Y CAERAU

Yn ddiweddar 'ma, wrth chwilita am ryweth arall, mi ddois ar draws hen bapur melyn yn cynnwys penillion yn disgrifio'r olygfa o Ben y Caerau gan Robert Jones, Baron Hill, Penisarwaun. Fe'u cyfansoddwyd ym 1933, ac er mai glaslan oeddwn i yr adeg honno cofiaf gael fy swyno ar unwaith, yn gymaint felly nes mynd ati i'w dysgu i gyd ar fy nghof. Roedd yr odl fewnol drwyddynt yn disgyn mor hyfryd ar y glust, a'r diweddglo, i'm tyb i, yn crynhoi'r cyfan yn gampus gan osod gorchestwaith Duw a dyn yn eu priod le.

Gan fod y gerdd yn ymdrin yn gyfangwbl â Bro'r Eco rwy'n siwr y bydd o gryn ddiddordeb i ddarlennwyr o bob oes, ac yn enwedig felly i bobl tua'r canol oed a'r rhai sydd, chwedl pobl Llyn, 'yn dal i edrach yn dda'. Dywediad cyffredin iawn heddiw yw, "Bobol! ma' petha wedi newid!" Ydyn, ac os ewch chi drwy'r gerdd yn ara deg fedrwrch chi ddim peidio â sylwi ar y newid hwnnw - y chwarel a Marconi wedi mynd, ond Trên Bach yr Wyddfa yn dal i ddringo'r 'llwybr cul', a'r hen gastell mor gadarn ag erioed.

Ond pwy oedd y Robert Jones hwn na welais i, beth bynnag, yr un llinell o'i waith na chynt na chwedyn? Tybed mai chwarelwr oedd o? Wedi cryn holi a stilio mi ddois i ddeall iddo ennill llawer o wobrau pan yn ifanc, a'i fod yn gynganeddwr medrus.

Dechreuodd weithio fel prentis pannwr yn hen Ffatri Wlân Clwt y Bont, ond yn ddiweddarach aeth i weithio ar reilffordd yr LMS rhwng Caernarfon a Llanberis. Bu farw ym 1943 yn 73 oed. Mab iddo yw John Edward Jones sy'n byw heddiw yn y Weirglodd Las, Penisarwaun. Dyna'r ffeithiau moel, ond mae'n siwr gen i fod ymhlith darlennwyr yr Eco rywun neu rywrai a fedrai ddweud rhagor wrthym. A oes rhywfaint o'i waith ar gael? Byddai'n ddiddorol iawn cael gwybod. Cofiwch anfon gair.

Emyr Jones
Caernarfon

GOLYGFA O BEN Y CAERAU

Cân Ddisgrifiadol (Buddugol yn Eisteddfod y Glasgoed, 1933, ac ym Mhonrhythallt)

Ar nawnddydd hyfryd yn yr haf
Dan heulwen braf, ddi-soriant,
Pan fydd pob bryn, a chors a dôl
Yng nghanol eu gogoniant;
A phan fydd melyn, coch a phinc
Yr eurbinc yn eu gorau,
A chân yr hedydd yn y nen,
Awn, ffrind i Ben y Caerau.

Ni raid wrth gymorth ffon na thrên
I gyrraedd gwên ei gorun,
Ac nid oes berygl ar dy hynt
It' golli'th wynt wrth esgyn:
Cei garped glaswellt dan dy droed,
A thi gei goed yn gysgod,
Ac wedi cyrraedd pen y daith
Cei filwaith mwy rhyfeddod.

Wel, dyma ni yn awr ein dau
A heulwen lân Mehefin
Yn dangos in' brydferthwch cain
O ddwyrain i orllewin.
Draw, draw i'r gogledd ac i'r de,
Ni waeth pa le oddi yma,
Cawn ryfeddodau Duw a dyn
Ar gorun Pen y Caerau'.

O dan ein traed y funud hon
Gwêl olion y gwarchloddiau
A gododd milwyr Rhufain gynt
Pan oeddynt mewn ymladdau.
Ond heddiw natur gyfrin, gain,
Sy'n codi drain ac eithin
I glws addurno'r cloddiau hyn
A blodau gwyn a melyn.

Daw Robin Goch a'r dryw ar daith,
Y fronfraith a'r fwylachen,
A hithau'r gog o lwyfan lân
A gân ei deunod llawen.
A melyn iawn gen i yw swm
Y cacwn bach a'r gwenyn,
Tra'n casglu mêl o lwyn i lwyn
A chwilio'n fwyn am flodyn.

Ha! dacw'r Wyddfa uchel frig
Lle trig y llwynog enwyllt,
A dacw lwybr cul y trên
Uwch dibyn hen a gorwyllt;
Y Clogwyn Coch a'i 'sgythrog ddant,
A dacw Bant yr Hetiau,
A Moel Cynghorion wrth ei bodd
Yn adrodd hen storïau.

Mae Castell Padarn heddiw'n wag,
Fu'n noddfa rhag gelynydd,
A'i restru gaiff, does neb a wad,
Ymhlith yr hen adfeilion.
Hoff gartre'r brain a'r adar to
Fydd bellach tra bo Cwmllan,
Ac uwch ei ben galaru'n hir
Wna'r 'Lidir Fawr a'r Fechan.

Gwêl eto'r hen Gefn Du am dro
Yn gwando ar negesau
Sy'n dod o bellter byd ar hynt
Ar gefn y gwynt di-wifrau.
A gwêl y polion preiffion, hir,
A'r rhaffau'n glir yn cydio
Ym mhen pob un rhag ofn i'r gwynt,
Y corwynt cryf eu hyrddio.

Tyrd eto heibio i'r Ceunant Glas,
Bryn Bras a'i gastell gloyw,
Lle trig boneddwr hael a mwyn
A wrendy gwyn y weddw.
Mae megis tad i lu o blant
Amddifad, nant a mynydd,
A chalon hawddgar dan ei fron
Yn curo'n gynnes beunydd.

Tro eto'th lygaid tua thref
Caernarfon - nef y llanciau
A'r merched ieuanc heinyf, llon,
Cariadon nos Sadyrnau;
A thyrd i lawr y Fennai dlos
Sy' a'i glannau'n rhos a lili;
Fan yma'n union yn y pant
Mae mwyniant Felinheli.

A! dacw Fôn - mam Cymru lân,
Ei Chanan wych awenydd
Sydd yn llifeirio o laeth a mêl
Dan awel môr a mynydd.
Pa wlad sy'n harddach dan y nef?
Hen gartref y derwyddon,
Magwfa beirdd, pregethwyr pur,
Seneddwyr, milwyr glewion.

A dacw fo'r hen Benmaen Mawr
Fel cawr yn herio'r stormydd,
A gwenu ar y moelydd hen
Sy'n gadwen yn ei gilydd.
A'r ddwy hen Garnedd hyd y farn
Yn gadarn gof golofnau
I Ddafydd a Llywelyn gu
Sy'n pydru yn eu beddau.

A dyna'r hen Elidir hael
A'i chreigiau'n cael eu rhwygo;
Clyw drwst ergydion o bob cwr, -
Gwêl, dacw'r graig yn cwmpo.
O Dad, dy aden dyner dod
Yn gysgod rhag damweiniau,
A bydd yn noddfa dawel, glyd
O hyd i wyr y creigiau.

Tra'n synnu at gampwaith dyn yn nrych
Ei gestyll gwyh a'i blasau,
A dyfais fawr Marconi sydd
â'i glodydd uwch yr Alpau,
Fe ddywaid derwen sydd gerllaw
Yn ddistaw wrth aderyn,
"Ni all Marconi am y byd
Roi bywyd i wybedyn".

Robert Jones
Baron Hill
Penisa'rwaun

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

LLONGYFARCHIADAU i Mr D. G. Ellis, Gweledfa, ar ei benodi yn Warden Ty Newydd, Llandygai - y cartref cyntaf yng Ngwynedd sydd wedi ei addasu gan Wasanaeth Prawf Gogledd Cymru fel hostel i oedolion sy'n aros eu hymddangosiad yn y llysoedd. Fel Uwch Swyddog Prawf, rhydd y datblygiad pellach hwn gyfrifoldeb ychwanegol ar ei ysgwyddau gan y bydd yn bennaeth ar dîm rheoli yn cynnwys dirprwy-warden, pedwar warden cynorthwyol ynghyd â goruchwylwyr eraill. Bu'r agoriad swyddogol i'r Ganolfan gan y Fonesig Marian Goronwy Roberts ddydd lau, 21 Medi.

GENEDIGAETH: Dymunwn longyfarch Delyth ac Iwan ar enedigaeth eu mab Llion, wyr cyntaf i Eifion ac Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian a gor-wyr i Mrs Hannah J. Jones, 7 Trem Eilian. Dymuna'r teulu ddiolch yn gynnes iawn i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar yr achlysur hwn.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi yn y Festri, nos Lun, 18 Medi, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Y gwr

gwadd oedd Mr Raymond Pritchard o Tenovus - Cymdeithas a sefydlwyd er ymchwil Cancr. Diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs Rhian Jones. Gofalwyd am y baned gan Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri P. Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Euronwy Roberts, gan Mrs Jennie Roberts. Ar Hydref 9fed bydd y gangen yn ymweld â Phlas Tanybwllch pryd y bydd Sgwrs a Bwffe wedi eu trefnu. Estynnir croeso i ffrindiau ymuno ar y noson arbennig hon - enwau i'r ysgrifenyddes Mrs Carol Houston, os gwelwch yn dda. Bydd cyfarfod arferol mis Hydref nos Lun 16eg yng nghwmni Miss Sian Foulkes (merch Mr a Mrs Tom Foulkes, Bethel, a'i nain y ddiweddar Mrs Elizabeth Foulkes, Haulfryn). Bydd hi yn sôn am ei gwaith fel gweinyddes yn Honduras. Eleni bydd y Sioe Cynnyrch flynyddol ar Hydref 18fed yn y Waunfawr. Gobeithio y bydd pob aelod yn mynd ati o ddifrif fel y llynedd i baratoi cynnyrch i'r gwahanol adrannau.

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa
wythnosol. Dewch i weld ein
amrywiaeth eang o fwydydd
**Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.**

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL
EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

GLYN RHONWY - BE NESA?

Methodd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon a dod i benderfyniad mewn cyfarfod tanlyd ar ddechrau'r mis. Y testun dan sylw oedd Glyn Rhonwy. Eglurodd y Prif Swyddog Cynllunio fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi "galw'r cynllun i mewn"; term a olygai na chai Arfon roi hawl cynllunio iddynt eu hunain ar y safle. Roedd angen felly, i'r Pwyllgor Cynllunio wneud argymhelliad i'w roi gerbron y Cyngor llawn pan fydd yn cyfarfod fis Hydref.

Daeth rhai degau o wrthwynebwyr i'r cynllun i ymgynnull tu allan i Siambr y Cyngor yng Nghwellyn, a llanwyd yr oriel gyhoeddus gan nifer o wrthwynebwyr a oedd yn ddigon parod i leisio barn ar ddatganiadau cynghorwyr a swyddogion Arfon.

Cynigiodd y Cynghorydd John W Williams fod y Pwyllgor Cynllunio yn argymhell **peidio** cyflwyno cais cynllunio i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn ei gynigiad, awgrymodd fod y cynllun arfaethedig bellach mewn perygl o dyfu'n anghenfil na ellid ei reoli. Yn dilyn, cafwyd datganiad grymus gan y Cynghorydd Charles W Jones, Llanrug (a ofynnodd hefyd am bleidlais wedi ei chofnodi). Ein braint yw cael cyhoeddi'r araith hon a wnaeth argraff ar sawl cynghorydd, ac a gafodd gefnogaeth frwd o'r oriel gyhoeddus.

Rwyf fi, fel pob aelod o'r pwyllgor yma - rwy'n reit sicr, wedi penderoni'n ddifrifol iawn dros y mater yma. Mae yn fater sy'n amlwg yn cynhyrfu pobl, gyda llawer yn gweld y datblygiad arfaethedig yma, ynghyd â datblygiadau eraill sy'n bosibl yn yr hardal, yn fygythiad i'n cymdeithasau, i'n ffordd o fyw, i'n diwylliant, i'n hiaith ac i'w ansawdd bywyd yn gyffredinol yn y rhan yma o Gymru.

Rwy'n un sy'n credu fod y swyddogion a'r cynghorwyr sy'n annog y cynllun yma yn ei annog gyda chymhellion anrhydeddus. Does dim dwywaith ein bod angen gwaith yn y fro yma ac y dylem fod yn ddiochgar i bawb sy'n gweithio i'r perwyl yma. Ond mae llawer yn teimlo bod ceisio datrus un broblem yn yr achos yma yn creu llawer o rai eraill - efallai mwy difrifol na'r broblem wreiddiol.

Rydym yn gwybod bod llawer o wrthwynebiad i'r datblygiad yma eisoes. Mae'r tri cyngor cymuned lleol yn gwrthwynebu; Awdurdod Parc Eryri; Adran Cynllunio y Cyngor Sir, ynghyd â llawer o unigolion.

Nawr mae yna wahanol resymau dros y gwrthwynebu, ond rwy'n siwr bod bron pawb sydd yn gwrthwynebu yn cytuno bod y cynllun yn rhy fawr. Tydio 'jest' ddim yn gweddu - gweddu yn y gwahanol agweddau rwyf wedi grybwyll.

Mae llawer yn teimlo'n gryf y buasai y datblygiad yma, pe bai yn cael sêl bendith yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r datblygiadau eraill sy'n bosibl, fel rwyf wedi sôn, yn tanseilio ein bro yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Mae rhai yn anghytuno â'r senario yma; ond y gwir yw, gambl yw hi

am fod ynte? Fedrwn ni fforddio gamblo yn y sefyllfa argyfyngus rydym ynddi?

Mae llawer o densiynau yn y Gymru gyfoes, llawer ohonynt a'u gwreiddiau yn y gorffennol pell. Ond mae llawer oherwydd datblygiadau a thueddiadau diweddar. Mae yna lawer o bethau na fedr y Cyngor yma wneud i wella pethau, ond mae yn bosibl i ni beidio ychwanegu at y tyndra. Mae'n rhaid i ni chwilio am ffordd sydd yn arwain at gyt cord yn ein cymdeithas; chwilio am syniadau a fydd yn fwy derbyniol ar gyfer y safle hwn; cydweithredu yn eang fel y medrwn gario y bobl yr ydym yn eu cynrychioli gyda ni yn hytrach na creu anghydfod, difrifol efallai, yn ein cymdeithasau. Rwyf yn dewis fy ngeiriau yn ofalus yn y fan yma gyfeillion.

Gyd-aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, nid wyf yn un sydd wedi gwrthwynebu'r cynllun yma o'i gychwyn. Dros gyfnod o amser rwyf wedi dod i'r casgliad rwyf wedi ei gyrraedd. Rwyf wedi gwrandao ar y ddadl o'r ddwy ochr, ond mae'n rhaid cyfaddef bod gennyf ormod o ofnau ac amheuan i fedru cefnogi y cais i gael hawl cynllunio ar gyfer y cynllun fel y mae.

Me'n rhaid, yn fy marn i, ail ystyried y mater yma, ac, am rwan, beidio mynd ymlaen i geisio cael hawl cynllunio ar gyfer y cynllun sydd dan sylw.

Ategwyd y Cynghorwyr John W Williams a Charles W Jones gan ddau o Gynghorywr bro'r "Eco", sef Pat Larsen a Brian Jones. Roeddynt hwythau hefyd yn pryderu am anferthedd y cynllun, a'i effaith yn lleol.

Y Cynghorydd Francis Jones oedd yr unig un o'r fro hon i siarad yn erbyn y cynigiad. Dywedodd ei fod yn methu a deall sut y gallai Cynghorwyr a fu'n gefnogol i'r cynllun dros nifer o flynyddoedd, newid eu meddyliau mor ddisymwth. Yr oedd hefyd yn amheus o'r sylwadau a wnaed yn datgan fod mwyafrif y bobl leol yn gwrthwynebu'r cynllun.

Dyma ganlyniad y bleidlais: (mae enwau Cynghorwyr bro'r "Eco" mewn print du wedi'i danlinellu)

O blaid y mesur i beidio cyflwyno cais cynllunio i'r Swyddfa Gymreig:

Y Cynghorwyr
Ieuan Ll Jones
G Winston Halliday
Richard Roberts
Gareth Roberts
Charles W Jones
Pat Larsen
Brian Jones

John W Williams
Huw Edwards

Ar bleidlais fwrw y Cadeirydd (O.R. Jones) trechwyd y cynnig.

Yn erbyn y mesur:

Y Cynghorwyr
Owen R Jones
Henry Owen
G Buckley-Jones
June Marshall
Glyn Owen
Robert Haines
Francis Jones
Betty Williams
Samuel Jones

YN DILYN Y BLEIDLAIS

Ond yna, pan gynigiwyd cyflwyno'r cais cynllunio i'r Swyddfa Gymreig, trechwyd hwnnw hefyd!

O ganlyniad i'r diffyg penderfyniad hwn gan y Pwyllgor

Cynllunio, y Cyngor llawn bel-lach fydd yn penderfynu a fydd Cyngor Arfon yn gwneud cais cynllunio am ddatblygu Chwarel Glyn Rhonwy i'r Ysgrifennydd Gwladol (gweler llythyr oddi wrth 'Padarn').

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH

WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376




CARTREF YR HENOED

CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

ECO'R IFANC

Cystadleuaeth Berwyn Bach
£30 o wobwr



Llyfr lliwgar i blant yw 'Berwyn Bach a'r Ymbarél' a dyma gystadleuaeth i ddarlennwyr dan 8 oed. Lliwiwch y llun uchod a'i yrru i Wasg Carreg Gwalch, Capel Garmon, Llanrwst, Gwynedd LL26 0RL a gorffennwch y frawddeg hon gyda dim mwy na 12 gair:

Fy hoff lun yw 'Berwyn Bach a'r Ymbarél'

Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad ac enw eich ysgol a gyrrwch y cyfan i Wasg Carreg Gwalch erbyn Hydref 31ain. Bydd £30 yn hosan Nadolig yr enillydd!

CORNEL JÔCS

Beth ddywedodd y llaw fawr wrth y llaw fechan?
'Sgen ti funud!!!

Beth ddywedodd un chwanen wrth y llall?
Gerddwn ni - neu gymerwn ni gath!!

Beth sy'n wyrdd ac sy'n eistedd yn y gornel?
Llyffant drwg!

Be sy'n ddu a gwyn hefo smotiau coch?
Dalmation hefo frech goch!

Beth ddywedodd y tap bach wrth y tap mawr?
Taw y drip!

Pa fath o bysgodyn sy byth yn nofio?
Un marw!
12

Sion: Lle dysgaist ti nofio?
Gwyn: Yn y dwr siwr iawn!

Prifathro (yn siarad ar y ffôn):
Helo!
Llais: Helo! Ni fydd Huw Jones yn dod i'r ysgol heddiw.
Prifathro: Pam?
Llais: Mae o'n sâl.
Prifathro: Gyda phwy ydw i'n siarad?
Llais: Fy nhad!

Beth yw'r ffordd orau i ddal pysgodyn?
Gofyn i rywun daflu un atoch chi!

Beth yw'r enw a roir ar gi beionig?
Rover 3500!

Sian: Beth sy 'na ar y teledu heno, Howel?
Howel: Yr un pethau ag arfer, Sian - pot blodau, darlun a llwch!

POSAU ERAILL I'CH DIFYRRU




Pa ddwy ymbarél sydd yn gwneud pâr?




Tynnwch linell rhwng y dotiau i weld.



Beth yw'r 5 gwahaniaeth rhwng y ddau lun?




Sut mae Berwyn yn mynd i gyrraedd ei ymbarél?




Pa llyn sy'n cydio wrth yr ymbarél?

LLIWIWCH Y LLUN




EDRYCHWCH YN OFALUS AR Y LLUNIAU YMA

(Gorchuddiwch y llun yna ceisiwch
gofio'r holl eitemau – Syllwch yn
ofalus 'rwan!



EWCH O DDOT I DDOT



CWBLHEWCH YR WYNEBAU



Beth am anfon eich jôcs a'ch storïau i'r gornel erbyn y mis nesaf!

SUL Y BEIBL

Mae Cristnogion Prydain yn gwario dros filiwn o bunnoedd bob blwyddyn ar lyfrau sydd am y Beibl. Ond mae miloedd ar filoedd ledled y byd heb y pris i brynu Un Beibl.

Mae'n glir bod helpu rhywun arall yn cymryd ail le yn ein meddyliau.

Gobaith Cymdeithas y Beibl yw i eglwys dros y wlad ganolbwyntio ar gryfhau ffydd ein brodyr a'n chwiorydd yma ac acw, ac i nerthu gweinidogion ac arweinwyr cynulleidfaoedd yn y gwaith yma mae pac arbennig dros Sul y Beibl.

Medd Canon Bill Andrew, Cyfarwyddwr Hysbysrwydd Cymdeithas y Beibl, "Neges y Testament Newydd yw 'trwy gariad byddwch yn weision i'ch gilydd', ac i wneud hwn yn gyflawn rhaid cofio, yn gyntaf, angen ysbrydol dyn. I bob un ohonoch y mae'r Newyddion Da. Ac fel bod pob credwr newydd yn tyfu yn y ffydd rhaid iddo gael Beibl ei hunan."

Fel arfer yr ail Sul yn Adfent yw Sul y Beibl. Eleni y 10fed o Ragfyr fydd y Sul pan ddethlir y Beibl a'i bwysigrwydd mewn bywyd Cristnogol. I'r rhan fwy o Gristnogion y byd, arian cymorth sydd yn gwneud perchen Beibl yn bosibl. Mae gobaith newydd i'w gael trwy ddarllen Gair Duw.

Ym mhac Sul y Beibl mae nodiadau ac amlinell pregeth, trefn gwasanaeth, amlen casglu a thaflen emynau. Hefyd, hysbyslen i dynnu sylw at eich gwasanaeth chi a manylion ar gymorth clyweled, ond bydd rhaid anfon am rhain cyn Tachwedd y 10fed.

I archebu pac neu ddefnydd, gwell ysgrifennu at Derek Tedder, Sul y Beibl, Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, SWINDON SN5 7DG. Ffôn: (0793) 513713.

RHODDION

£10: Plant y Diweddar John Emrys Morris, 1 Tai Dinorwig, Clwt-y-Bont, Deiniolen;

£5: John a Nia Williams, Tyddyn Andrew, Bethel; Mr a Mrs H Roberts, Plas Tirion, Llanrug; Miss Enid Roberts, Minafon, Tan y Coed; Mrs J Evans, 39 Bro Rhythallt, Llanrug; Maxwell Jones, 49 Bro Elidir, Llanberis.

£3: Mrs Mair Parry, Tir-na-Nog, Stâd Bryn Moelyn, Llanrug; Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen.

£2: Mrs B M Parry, 6 Bro Ddeiniol, Deiniolen; Y ddiweddar Mrs Megan Owen, 8 Glanrafon, Llanberis.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Hen Dref y Cymeriadau Rhyfedd

gol. Myrddin ap Dafydd.
Gwasg Carreg Gwalch. £2.40.
Portreadau o rai o gymeriadau hynotaf tref Llanrwst yn yr amser a fu.

Darnau Difyr

Gwasg Gee. £2.00
Darnau adrodd gan J Eirian Davies.

Heb Long Wrth y Cei

gan Aled Eames
Gwasg Carreg Gwalch. £1.75.
Cyfrol yn adrodd peth o hen hanes rhai o borthladdoedd diflanedig Cymru. (Cyfres Llyfrau Llafar Gwlad)

Gwaith Haearn-Bwrw Addurnol yng Nghymru/Decorative Cast-Ironwork in Wales

Ifor Edwards (Addas. Enid P Roberts)
Gwasg Gomer. £10.95
Cyfrol ddwyieithog yn olrhain hanes addurnwaith haearn-bwrw yng Nghymru.

Y Corn Gwlad 1: Cylchgrawn Gorsedd y Beirdd.

Gwasg Gee. £2.50.
Cyfrol o ysgrifau yn ymwneud ag amrywiol weithgareddau'r Eisteddfod a'r datblygiadau ynglyn â hi. Hefyd cynhwysir nifer o gerddi newydd.
gol. Eirwyn George a W. Rhys Nicholas.

Lleisiau'r Werin 3

gol. Rhidian Griffiths
Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. £2.75.
Un-ar-ddeg o ganeuon gwerin Cymru. (Cyfres Lleisiau'r Werin).

Afonydd Môn/The Rivers of Anglesey

gan Gwilym T Jones
Canolfan Ymchwil Cymru, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru. £6.50.
Llyfr dwyieithog yn cynnwys astudiaeth o enwau afonydd Môn ynghyd â manylion eu tarddiad.

Abel Jones Bardd Grwst

gan Tegwyn Jones
Gwasg Carreg Gwalch. £1.75.
Portread difyr o faledwr amlwg o'r ganrif ddiwethaf a aned yn nhref Llanrwst. (Cyfres Llyfrau Llafar Gwlad)

Cerddi Megan Lloyd-Ellis

Cyhoeddiadau Barddas. £4.50.
Detholiad o gerddi'r ddiweddar Megan Lloyd-Ellis.

Cronfa Achub y Plant

gan Roger J Owen a J Owen.
Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol. £1.60.

Llyfryn yn llawn ffeithiau a gwybodaeth am gefndir a gwaith Cronfa Achub y Plant. (Cyfres Elusennau).

Wyt ti'n cofio?

Y Lolfa. £14.95.
Hanes chwarter cnarif o frwydr am degwch i'r iaith Gymraeg gan Gwilym Tudur.

Blodeugerdd y Glannau

Cyhoeddiadau Barddas. £4.50.
Detholiad o gerddi a phenillion beirdd lleol a gyhoeddwyd yng ngholofn farddol Y Glannau, papur bro ardal Y Rhyl a Phrestatyn.
Golygwyd gan Einion Evans.

Ann a Gwyn

gan Heulwen Gruffydd
Gomer (CBAC) 95c.
Cyfes o storïau byrion ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (Cyfres helyntion Sion).

Mêl i Gyd?

gan Mair Wynn Hughes
Gwasg Gomer (CBAC) £3.95.
Y gyntaf o dair nofel i'r arddegau.

Briwsion ar y Buarth

gan Handel Jones
Gwasg Carreg Gwalch. £2.50.
Ysgrifau byrion yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

Patrymau Diwylliant a Moes yn

Nheulu'r Wynniaid o Wedir
gan John Gwynfor Jones
Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Sir Gwynedd. £1.00.
Darlith Dyffryn Conwy 1988 yn ymwneud â hanes lleol yr ardal a thu hwnt.

CARNIFAL PENISARWAUN



Cystadleuaeth i blant o dan oed ysgol: Cennin (Bwgan brain); Manon a Catrin (blodau); Urien Deiniol (Wali) a Haydn (Smotyng).

Casglu Cwysi

Gwasg Carreg Gwalch. £2.25.
Atgofion a storïau difyr am oes a fu, gan W H Jones.

Rigio

gan Esyllt Penri
Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. £2.50.
Gyfrrol arobryn cystadleuaeth y Fedal Lenyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Cwm Gwendraeth 1989.

Chware Gemau yn y Car

gan Tony Potter
(addas. Ieuan Griffiths)
Gwasg Gomer. £1.75.
Gemau, posau a diddanion i gadw pawb yn hapus wrth deithio mewn car.

Proffesor Pwyna!

Gwasg Gomer. £2.25.
Nofel fywiog arall mewn cyfres o nofelau byrion sy'n addas ar gyfer plant o 7 i 10 oed (Cyfres Corryn).
Awdur: Margiad ROBERTS

Yr Wyl Fawr yn Nyffryn

Conwy
gan O.M. Roberts
Cyngor Sir Gwynedd - Gwasanaeth Llyfrgell. 90c.
Hanes yr Eisteddfod yn Nyffryn Conwy o ddyddiau Gwilym Cowlyd hyd heddiw. Darlith Dyffryn Conwy 1987.

Emyr Humphreys

Gwasg Pantycelyn. £3.00.
Y gyfrrol ddiweddaraf mewn cyfres sy'n edrych ar fywyd a gwaith rhai o'n prif lenorion. (Cyfres Llên y Llenor).
Awdur: M Wynn Thomas

Llyfr Mawr S4C

gol. Dylan Williams
Hughes a'i Fab. £4.95.
Llyfr difyr o storïau, posau a chartwnau i blant yn seiliedig ar rai o gymeriadau rhaglenni S4C.

PRINT BRAS

Y Gwr drwg a'i Obeithion
gan Roy Davies
Gwasg Gomer. £6.95.
Y Ditectif Uwch-Arolygydd Roy Davies ar drywydd troseddwyd cyffuriau.

HWYL A FFLAG yn cyflwyno

JANINE

Drama gan Cefin Roberts

yn Theatr Ardudwy, Harlech, Hydref 3-4. Ffôn: Harlech 780667

Theatr Emlyn Williams, (Theatr Clwyd)

Yr Wyddgrug, Hydref 6-7 Ffôn: Yr Wyddgrug 56331

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Cefais yr holl fanylion am Gutyn Arfon mewn llyfr a elwir 'Manion', sy'n cynnwys gweithiau a hanes Gutyn Arfon. Golygydd y llyfr gan R E Jones a'i Frodyr, Argraffwyr, Conwy. Y mac 'Manion' yn gopi cyflawn o hanes a gweithiau Gutyn Arfon. Ar dudalen flaen y llyfr y mae tri gair sy'n disgrifio cynnwys y lyfr: "Pennill, Englyn ac Adgof". Y farddoniaeth i gyd, fel y dywed Gutyn Arfon ei hun, yn cael eu cyflwyno ganddo ef ei hun i'w "hoffus hen ddisgyblion, Plant y Bryniau – sydd yn aros hyd yr awrhon: ac er cof am yr anwyllion hwnt i'r tonnau."

Ganwyd Gruffydd H Jones (Gutyn Arfon) yn Ty Du, Llanberis, hen breswylfod yr Esgob Goodman. Dyma enwau ei rieni, Hugh ac Ellen Jones; a'i daid o du ei fam oedd Dafydd Sion, Garreg Wen, gwr adnabyddus ynglyn â hanes y Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur yr emyn adnabyddus:

“Mae Seion wan yn gruddfan dan y groes,
Yn disgwyl gwawr ar lawr dan lawer
loes:
Bywha dy waith, ni phery 'nhaith yn
hir
Rwy'n ofni'r bedd cyn gweld dy
wedd yn wir.

Yr oedd Guty'n Arfon yr ieuengaf o bedwar o blant – dau fab a dwy ferch. Ei frawd oedd y Parch D H Jones (Dewi Arfon), y bardd bregethwr a olynodd Eben Fardd fel athraw Ysgol Ramadegol Clynnog. Bu ei dad yn arweinydd y canu yn y Capel Coch, Llanberis am dros 60 mlynedd, a dewiswyd yntau i gynorthwyo ei dad pan nad oedd ond tua 12 neu 13 mlwydd oed.

Pan ddaeth y Parch John Roberts (Ieuan Gwyllt) i fugeilio Eglwys Capel Coch, sefydlodd ddosbarth i ddysgu cyfundrefn y Tonic Sol-ffa a chafodd Gutyn Arfon addysg dda yno ym myd cerddoriaeth.

Ar ôl gwasanaethu fel disgybl-athraw yn ysgol ddyddiol Dolbadarn aeth yn Athraw

Ni chafodd fanteision colegawl,
ond pasiodd bob arholiad a
osodwyd arno yn flaenaf ar y
rhestr.

Yn Chwefror 1869 symudodd i gadw Ysgol Elfenol Rhiwddolion, rhwng Betws y Coed a Dolwyddelan. Bu yn ysgolfeistr yn Rhiwddolion am ddeng mlynedd a deugain a chwe mis a dilynodd ei waith yn yr ysgol yn ystod ei lesgedd olaf trwy gael ei hwylio yno mewn cerbyd pwrpasol – cymaint oedd ei ymrwymiad wrth ei ddisgyblion! Yn Rhiwddolion y mynnodd aros gan ddiystyru pob cymhelliad i fyned i leoedd eraill am lawer mwy o gyflog.

Dewiswyd ef yn Flaenor yn Rhiwddolion yn y flwyddyn 1900 a bu yn ffyddlon iawn i'r Achos yno.

Bu farw Gutyn Arfon yn dawel fore Sadwrn, Gorffennaf 26ain, 1919 yn 70 a hanner mlwydd oed. Y dydd Merched dilynol – diwrnod ei angladd – daeth tyrfa ynghyd i Gapel Rhiwddolion, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch J Tudno Williams, MA. Hebryngwyd ei weddillion i feddod ei frawd, Dewi Arfon, ym Mynwent henafol Nant Peris. Wedi myned i'r Eglwys darllenwyd y gwasanaeth gan y periglor.

Dyma restr o donau a gyfansoddodd - *Llef; Yr Ysgol Rad Sabothol; Er Cof* (am y Parch John Hughes DD); *Gweddi; Awel; Digon* (buddugol yn Chicago, UDA); *Cof am y Cyfiawn Iesu; Profiad; Heddi; Cynhaliaeth; Clodforedd; Maddeuant; Gwliith; Cyfaill; Sinai; Meddyg; Pwy?; Rhiwddolion; Nos Da y Cristion; Rhown y Clod i gyd i'r Iesu; Neges Blodau Bethlehem; Cân Nadolig yr Angylion; Cân Nadolig y Plant.*

Anthema: Pwy a'n gwahana ni?; Fy Mhrynwyr; O'r dyfnder y llefais; Y Terfysg; Y Cymundeb (priodol i'w chanu wrth weinyddu yr Ordinhad).

*Caneuon etc: Cân y Gaethes
Ddu; Y Cymro; Gweddi'r Ffydd;
Y Ddraig Goch; Conset William
Owen; Not at Home; Y Gân
Newydd; Pull for the Northern
Shore, etc.*

Trefnodd gyfeiliant ayyb i aml
un o'r hen Alawon Cymreig
megis '*Morfa Rhuddlan*' etc.

Un gair ddefnyddiodd Gutyn Arfon am ei waith ei hun ser 'Manion'. Ni fuasai neb arall yn defnyddio yr enw hwnnw am ei englynion cyfoethog a'i ganeuon chwaethus a gorffenedig. "Llwch aur yw'r oll", - dyna deyrnged Anthropos iddo.

O yrfa Gutyn Arfon – wele saig
Melys i'w ddisgyblion:
Gwledd yn wir, ar dir, ar don
Yw munud gyda'r Manion.

Owen Arfon Jones
Gogarth View, Conwy
Medi 1919
(Golygydd y Manion)

Nos Dawch

Er eginio o'r Gwanwyn – hyfryd Haf
A'r tês yn ei ganlyn,
A chyfoeth uwch ei ofyn
Nos dawch! ydyw hanes dyn.

Gutyn Arfon 1880

CYWIRO

Yn 1903 yr urddwyd fy nhad, Glan Rhyddallt, gan Hwfa Môn yn Eisteddfod Llanelli, yn Aelod o Orsedd y Beirdd ac nid yn 1921 fel yr awgrymir yn hanes Portread Fideo Cymraeg Mari Lewis yn y rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa.

C' ddeil ei anwyf ddalonaau - lewyrch
 I oleuom llwybrau;
 Ac o fewn hwn caf fwrphau
 Duw Ior yn llon'd ei eiriau.

Mawr a ffrid addewidion - Gair ein Duw
Gair yn dal yn ffyddlon:
At o dan bwrp dwys y don - yn y fant
Hwyl dawel pŵant i deulu Seion!

Bethwood, Medi 1886.

—EI LAWYSGRIF.

LLEF. (M.H.)

GRIFFITH H. JONES (GUTYN ARFON), 1849—19

Lah E. Doh G.															
1 _i	:1 _i .1 _i	d	:-r	d	:t _i	1 _i	:-	d	:r.r	m	:-m	r	:d	t _i	:-
1 _i	:1 _i .1 _i	1 _i	:-.1 _i	1 _i	:se _i	1 _i	:-	1 _i	:t _i .t _i	d	:-.1 _i	se _i	:1 _i	se _i	:-
1 _i	:1 _i .1 _i	m	:-f	m	:r	d	:-	m	:s.s	s	:-d	r	:re	m	:-
1 _i	:1 _i .1 _i	1 _i	:-.r _i	m _i	:m _i	1 _i	:-	1 _i	:s _i .s _i	d	:-.d	t _i	:1 _i	m _i	:-

D.t.										f.G.																							
m_1	: 1.1		d'	: -r'		d'	: t		1	: -	1m	: r		x	: d		$-x$	: d		t	: l		1	: -	l_1	: l		l_1	: l				
m_1	: 1.1		m	: -f		m	: se		1	: -	1l_1	: se		se	: l		$-l_1$	: l		se	: l		1	: -	f	: m		m_1	: f				
m_1	: 1.1		1	: -l		1	: r'		d'	: -	1m	: m		m	: -f		m	: r		d	: -		r	: de									
m_1	: 1.1		1	: -r		m	: m		1	: -	fd	: t		t	: l		$-x$	: m		m	: l		1	: -	r	: l		l_1	: l				

A - men

A - men

A black and white illustration of a tall, ornate wooden hutch or china cabinet. The hutch has three shelves. The top shelf holds five plates. The middle shelf holds a bowl, a teapot, and a small dish. The bottom shelf holds a bowl and a small dish. The base of the hutch has three drawers and three cabinet doors. The drawers have small handles, and the cabinet doors have larger handles. The hutch is decorated with intricate carvings and a decorative crown on top.

A tall, dark wooden grandfather clock with a round white face and black hands. The clock has a decorative top and a large pendulum visible on the right side.

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



Y diweddar G. H. Jones
 ("Gutyn Arfon").

Y GWALCH TU HWNT I'R TAMAR

Rhan 2

Elin oedd enw'r hogan a oedd yn sychu'r llestri, ac yr oedd hi'n hanu o Glynnog Fawr meddai hi.

'Beth wyt ti'n neud mewn lle fel hyn ynta?' gofynnais.

'Mi allsw'n i ofyn yr un peth i titha, ond wna i ddim.'

'Ella y cawn ni sgwrs o holi ac atab rhyw dro?'

'Gawn ni weld. Am drio dy law fel chauffer wyt ti?'

'Wn i ddim eto. Dwad i mi - pwy ydy'r ddynas yma?'

'French Canadian ydi hi o Quebec. Does yna ddim llawar ers pan mae hi wedi prynu'r lle yma.'

'Oes ganddi hi wr?'

'Mae o yn Quebec. Mae ganddo fo ffatrioedd botyma ymysg petha eraill.'

'Botyma?'

'Mae o'n fusnas sy'n talu yng ngwas i. Cysidra di faint o fotyma sy'n dy ddal di wrth dy gilydd rwan. Faswn i ddim yn mynd i draffarth i ddaffod fy hun chwaith taswn i yn dy le di. Ond mi fydd yn well i ti fynd p'run bynnag. Dydy hi ddim yn un sy'n licio cael ei chadw.'

Erbyn i mi fynd yn fy ôl, roedd yr arglwyddes yn disgwyl wrthyf ar y teras. Gofynnodd a gefais fy ngwala, yna dywedodd.

'Mae yna un ddyletswydd arall ynglyn â dy swydd di. Tyrd mi ddangosaf i ti.'

Aeth a fi o gylch y ty i gyntedd arall, ac yno yr oedd twr bychan ac arno gloc gyda thri wyneb.

'Bydd angen i ti weindio hwn,' meddai, a dechreuodd ddringo ysgol hacarn i fyny i ben y twr. Dilynais hi, a thynnodd fi i mewn gerfydd fy llaw drwy ddrws i gell fechan lle y crogai perfedd y cloc. Yna dangosodd i mi sut i'w weindio. Yr un mor ofalus, gafaelodd yn fy llaw i ddod allan.

Yn ystod wythnos gyntaf fy ngwasanaeth yn y plasdy, daeth yr hen yrrwr yno i'm hyfforddi o'r modd gorau i drin y Rolls a'i

berchennog, ac yr oedd ganddi reolau pendant, ond syml ynglyn â byw yn llwyddiannus yng nghwmni'r ddau fel ei gilydd.

Yn y cyfamser yr oedd y perthynas a ddatblygodd rhyngof i ac Elin Benelin yn un anochel a naturiol o gofio ein bod ein dau o'r un ffridd fel petae.

Ar wahan i fod yn gwmpeini i'r arglwyddes ar ei theithiau byddwn hefyd yn cludo Elin ar ei diwrnod rhydd i gyrraedd trafnidiaeth. Byddwn ar adegau felly yn defnyddio car arall, ac yr oedd yr achlysuron rheiny yn ddifyr tuhwnt, ac ar adegau yr oedd hi'n anodd gwrthsefyll y demtasiwn o'i goleuo hi am y diwrnod. I osgoi'r fath gamgymeriad, roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n llawn cystal fod yr arglwyddes wedi trefnu ein diwrnodiau rhyddion ar wahan.

Ar ôl ymadawiad yr hen yrrwr, dechreuodd yr arglwyddes roi mwy o brawf ar fy medr a'm prydlondeb. Byddwn yn mynd a hi i balasdai eraill ar ymweliadau cymdeithasol. Ar adegau felly byddai weithiau yn cistedd gyda mi yn y pen blaen, neu hyd yn oed yn deisyfu gyrru ei hun, ond cyn cyrraedd byddai yn gofalu mynd i'r sedd ôl, a byddai ei hagwedd yn newid yn gyfangwbl. Roeddwn erbyn hynny yn dechrau dod yn hoff ohoni, ac nid oedd dim na fuaswn yn wneud iddi. Ond gwrthsefais y demtasiwn a ddymchwelodd aml un o'm bath - syrthio mewn cariad a'i feistres.

Un diwrnod hafaidd roedd hi awydd cael ei chludo i faes awyr Bryste ac yr oedd ganddi fag i'w chanlyn. Credais ei bod a'i bryd ar daith dros y môr, ond ar ôl cyrraedd y fan, yn lle rhoi cyfarwyddyd i mi ddod i'w chyrchu ar adeg arbennig, gorchmynodd i mi adael y cerbyd a mynd gyda hi ar y maes, ac yr oeddwn yn dal i gludo'r bag.

Aeth â fi wedyn i hangar lle yr oedd dau ddyn yn paratoi Gypsy Moth ar gyfer taith.

'Agor y bag a rho'r dillad yna amdanant,' meddai hi. 'Mi awn ni i gael golwg ar yr hen le o safbwynt hollol newydd i ti.'

Doedd gen i ddim dewis felly, ond rhoi'r dillad amdanaf a gwydrau am fy llygaid a dringo i gopit blaen y Moth. Gwathiwyd hi allan, ac ymhen dim yr oeddem yn hedfan uwchben caeau Dyfnaint, a hithau yn fy mhwnio o'r tu ôl a gweiddi yn y tiwb siarad i dynnu fy sylw at wahanol bethau oddi tanom. Gyda hynny yr oeddem uwchben y palasdy. Chwyrliodd heibio i'r simneau unwaith neu ddwy a gwaeddodd.

'Wnest ti sylwi faint oedd hi o'r gloch ar y twr?'

Yna dechreuodd daflu'r awyren o gylch yr awyr fel deilen mewn corwynt, nes i mi golli gwybodaeth am leoliad nef a daear. Yna meddai,

'Fe awn ni am dipyn o wynt y môr,' ac i ffordd â ni uwchben traethell Weston-Super-Mare, ac yna yn ein holau i'r maes awyr. Fu erioed ddim gwell gen i roi fy nhraed ar dir soled.

Wrth i ni gael llymaid ym mwyu'r maes awyr, dywedodd wrthyf ei bod yn fuan yn bwriadu mynd i Quebec am gyfnod at ei gwr, a'i fod yntau am ddychwelyd gyda hi. Byddai hi angen i mi fynd i'w cyrchu i Fryste pan ddeuai'r diwrnod.

'Gofala fod cloc y twr yn dal i fynd,' meddai. 'Mae ganddo ffetish hefo amser.'

Pan ddaeth y diwrnod hwnnw roedd yn cyd-ddigwydd â diwrnod rhydd Elin Benelin, ac yr oedd hi - o fwriad efallai - wedi penderfynu ei dreulio ym Mryste. Perswadiodd fi fynd â hi yno, a hynny ar ffyrdd cefn anghyfarwydd, ond doedd hynny, na'r ffaith nad oeddwn i gario teithwyr o fath yn y byd, yn pryderu dim ar Elin - hynny ydy - nes y daeth rhyw ferch yn sydyn rownd trofa ar gefn beic ac yn union i'n llwybr.

Tarawyd hi i lawr, a darganfuwyd yn ddiweddarach ei bod wedi torri ei braich, ond doedd gen i ddim o'r amser yr adeg

honno i fanylu ar bethau dibwys felly. Codais hi i sedd ôl y car, ac yr oedd ei hymddangosiad gwaedlyd yn ddigon i wneud Elin yn swp, ac yr oedd gennyf ddwy ferch analluog ar fy nhrinsiwr.

Fedwrn i ddim llai wedyn na chludo'r ferch glwyfedig i ysbyty ym Mryste, ac erbyn i mi gyrraedd y fan honno doeddwn i ddim yn siwr p'run ai hi ynteu Elin oedd angen sylw'r meddygon gyntaf.

Ar ôl trosglwyddo'r ferch i'w gofal a rhoi manylion i'r plismyn, roedd hi'n hwi-rhed amaf i fynd i'r maes awyr, a bu raid i mi fynd ag Elin i'm canlyn. Yno yr oedd yr arglwyddes a'i gwr wedi bod yn disgwyl ers dipyn, a doedd eu hagwedd ddim yn un hynod o groesawus.

Ar ein ffordd adref roedd Elin yn y pen blaen hefo fi yn pwysu ar y drws fel pe buasai yn deisyfu i hwnnw agor a'i hyrddio i abergofiant. Pan ddaethom o'r diwedd i'r cyntedd ger y twr, rhoddodd bwniad slei i mi yn fy nghlun ac amneidio ar y cloc. Yr oedd hwnnw wedi stopio.

Dywedwch a fynnoch - mae genod yn gallu achosi helbulon weithiau.

Bydd y stori hon yn cael ei darllen gan yr awdur ar y rhaglen radio "Blas Bro" - cyfres newydd ar Radio Cymru y gaeaf hwn. (gweler tudalen 19. Gol)

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872 276

DYMUNA Mrs Jeannie Hughes, Oerddwr ddiolch i staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd, ffrindiau, teulu a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Hefyd mae'n dymuno diolch yn fawr i'w doctoriaid yn y Waunfawr.

GWELLHAD BUAN i Mrs Enid Lloyd Jones, Oaklea ar ôl ei llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar;

Hefyd i Mr R Blanchard, 1 Pant y Coed sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl, ac i Bethan Pritchard, Cefn Llwyd ar ôl ei damwain.

LLONGYFARCHIADAU i bawb a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU.

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd

ac Fel Newydd
GWASANAETH

FFON 24AWR

LLANBERIS 870545

ATGOFION AM GYMDEITHAS DDAWNS WERIN CYMRU

Eleni, mae Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn dathlu ei deugeinfed pen-blwydd. Neilltuwyd y rhifyn cyfredol o gylchgrawn y Gymdeithas "Dawns" i olrhain cychwyn y mudiad a cheir ynddo gyfraniadau amrywiol o atgofion gan nifer o'r sylfaenwyr brwdfrydig. Yn eu plith mae atgofion cynnar y Llywydd presennol, sef Miss Alice Eileen Williams. Yn enedigol o Frynrefail, bu'n gysylltiedig â hyfforddi nifer o bartion dawnys yn y fro, yn arbennig felly aelodau o Aelwyd Llanberis. Oddiar y cyfnod cynnar hwnnw bu ei chysylltiad â dawnsio gwerin Cymreig yn un nodedig: fel hyfforddwraig ac fel beirniad cenedlaethol, a thystiolaeth i hyn oll fu iddi gael ei hethol yn ddiweddar yn Llywydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru.

Mae'n agor ei hatgofion drwy fynd a ni'n ôl i ganol y 40au pan oedd hi'n athrawes ifanc ym Mhenmachno, wedi ei thrwytho yng nghyfundrefn yr Urdd er yn blentyn ac yn barod i ymdaflu i weithgarwch y mudiad. "Yn y dyddiau hynny," meddai "cyfansoddi dawnys i alaw Gymreig oedd y dasg yn yr adran ddawnsio yn nhestunau'r Eisteddfod. Roeddwn wedi cyfansoddi nifer o ddawnsiau ac wedi dysgu plant ac ieuencid i'w dawnsio yn Eisteddfodau'r Urdd. Yna, darllenais am Saesnes o'r enw Lois Blake oedd yn byw nepell oddi wrthyf yn Uwchaled. Ysgrifenis ati i ofyn ei chynghor a threfnu i'w chyfarfod ble mae ffordd Penmachno yn ymuno â'r A5 ar ôl yr ysgol un mis nos. Cefais sioc. Disgwyliais gyfarfod â gwraig luniaidd ieuanc, ond gwraig wargrwm mewn tipyn o oedran a ymddangosodd - gwallt coch syth bin a'r arian yn ymblethu ynddo. Gwahoddodd fi i'w char a ffwrdd a ni am Bentrefoelas a hithau'n siarad pymtheg y dwsin am ddawnsio. Prin y gallwn ei deall gan goethder ei hacn Saesneg. Roedd hi'n holi am wneud 'hey'. 'Gwair' oedd 'hay' i mi bryd hynny ac ofnaf na ddeallais o gwbl mai pleth a olygai nes iddi gyfeirio at 'Rhif wyth' (ynganiad unigryw, coeliwch chi fi!) Dyma stopio'r car wrth ochr y ffordd ac allan â hi i ddangos i mi sut oedd gwneud yr 'hey' i bedwar yn 'Ril Gwyr'. Dim ond dwy oeddem ni ond roedd dwy gasdgen 'coal-tar' wrth ochr y ffordd a gwau o gwm-pas y rheiny y buom."

"Dyna fy meddyd o ddwr a than i gymhlethdodau ffigyrau dawn-sio, a'm cyfarfod cyntaf gyda'r

wyrth o wraig y deuthum i'w hadnabod, ei hedmygu a'i charu yn fawr iawn. Ac ym 1951 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abergwaun roedd un ar bymtheg o ferched o Aelwyd Llanberis ar y llwyfan yn dawnsio 'Ril Gwyr' o'r fersiwn a gyfansoddais o'r nodiadau prin a gefais gan Mrs Blake. Roeddem mewn gwisgoedd Cymreig a wisgwyd gan ferched gweini'r Gwesty Fictoria, Llanberis ar droed y ganrif. Maent wedi hen fynd i ddifan-coll."

Mae'r atgofion hefyd yn adrodd am Gwrs Nadolig yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhantfedwen, Y Borth, Aberteifi yn ôl yn 1948, lle'r oedd yr awdures yn bresennol a Lois Blake yn wraig wadd. Ychydig fisoedd wedi hyn y sefydlwyd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn 1949. Daeth Pantfedwen yn gartref i Ysgol Breswyl y Gymdeithas o 1950 ymlaen a chawn lu o atgofion am drocon trwstan, hwyl a chwm-nïaeth y Cyrsiau Preswyl hynny.

Fel aelod o staff yr Urdd o 1950-1956 a phan sefydlwyd grwp dawnsio cenedlaethol, rhoddwyd gofal hyfforddi cynrychiolwyr pob sir i Alice Williams. Bu i'r aelodau hynny o Dde a Gogledd Cymru ffurfio grwp i ddiddanu yn ogystal â chystadlu. Cynan a luniodd y wisg ac y mae'r wisg honno ym meddiant Alice Williams o hyd. Ymhlith eu perfformiadau oedd yn un o brif gyngherddau Eisteddfod Genedlaethol Llangefni ac mewn Gwyl Werin yn Neuadd Albert Llundain yn 1957, ym mhresennoldeb y Dywysoges Margaret. Yna, bu llu o wyliau cyffelyb drwy'r 60au.



Parti Aelwyd Llanberis, 1949 ym Mhontarddulais.

Mae'n gorffen ei hatgofion drwy adrodd am brofiad a gafodd yn Eisteddfod Rhuthun: "Roeddwn yn eistedd wrth fwrdd ar y llwyfan a'r dawnswyr yn dawnsio ar lawr y neuadd. Cystadleuaeth i blant dan 15 oed oedd ymlaen. Yn naturiol 'pen yr uned' i bob pwrpas oedd y pen agosaf i'r llwyfan, ac at y Presennoldeb (yn yr achos yma y beirniad tlawd!). Cofiaf i un parti ddod ymlaen gyda'r bechgyn i gyd gyda'u merched ar yr ochr anghywir wrth wynebu pen yr uned. Yn eistedd ym mhen arall y neuadd yr oedd Mrs Blake, Felicity ei merch a Thula'r ci.

Wedi i'r parti anffodus yma orffen dawnsio yr hyn a glywyd yn hyglyw dros y neuadd oedd geiriau Mrs Blake - 'I do hope Alice realises that this is the only party in the whole competition that is correct in that the men have their women on their right when they face the Presence?'

Fodd bynnag, er y profiad anghysurus yna gafodd, mae'n amlwg fod edmygedd llywydd presennol Cymdeithas Ddawns Werin Cymru o Lois Blake yn neilltuol a thystiai mai hi a fu, ac a fydd 'Y Presennoldeb' yn hanes Cymdeithas Ddawns Werin Cymru.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors



Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CWM-Y-GLO BRO FY NGENI

Gohebydd Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

ADREF O'R YSBYTY: Anfonwn ein cofion gan ddyuno gwellhad buan i Mr Richard Roberts, 1 Bryn Gro a fu dan driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Ella Morris (nain Becws) ar ennill cystadleuaeth 'Nain Bertaf' tra'r oedd ar ei gwyliau ar Ynys Jersey. Bydd yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth derfynol yn nes ymlaen. Pob dymuniad da iddi.

DIOLCH: Annwyl ffrindiau,

Dymunaf ddiolch o galon i holl blant, rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Gymuned Cwm-y-glo am y gefnogaeth a gefais tra bwm yn athrawes yno, ac am eich rhoddion hynod o hael i mi. Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau o'r gymuned a gymerodd ddiddordeb arbennig yn addysg y plant. Bu rhai'n helpu i fynd a'r plant am driplau, codi arian i'r ysgol, dod i mewn i sgwrsio â'r plant, a hyd yn oed ein croesawu i'w cartrefi a'u ffermydd. Byddaf yn cofio am Gwm-y-glo fel lle hynod o groesawus a gweithgar.

Diolch o galon i chi i gyd, a phob dymuniad da i'r plant a'r ysgol yn y dyfodol.

Gwawr Morris.

CLWB POBL Y CWM: Ar bawn braf yn ystod seibiant yr haf bu'r aelodau am drip bach i Farchnad Llangefni, ac ymlaen i Sw Fôr Brynsiencyn a phawb yn mwynhau y te prynhau gafwyd yno.

Ail ddechreuwyd tymor y gaeaf ar Fedi 14eg gyda Bingo yn y Ganolfan. Mrs Enid Price oedd yn galw, hi hefyd enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs Watkins. Darllenwyd gair o ddiolch i'r Clwb oddi wrth Is-bwyllgor y Ganolfan am eu cyfraniad i lwyddiant y Mabolgampau. Bu cychwyn ar drefnu rhaglen y gaeaf ac anfonodd yr oll o'r aelodau eu cofion a'u dymuniadau gorau am wellhau buan i Mrs Richard Roberts, cyn Ygrifennydd ac aelod hynaf y clwb.

Rhoddyd y te gan Mrs Watkins a Mrs G Chick.

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO Tymor Newydd: Ar ddechrau'r tymor newydd croesawyd chwech o blant newydd, un athrawes ac un fyfyrwr newydd yma.

Gobeithio yn fawr fod Kim, Margaret, Amy, Carys, Karen,

Michael, Mrs Williams a Miss Debbie Dillon o'r Felinheli yn setlo i lawr ac yn mwynhau eu hunain yma.

Prif Ddisgybl: Etholwyd Bryn Evans yn brif ddisgybl yr ysgol gan ei gyd-ddisgyblion. Llongyfarchiadau Bryn ar ennill ymddiriedaeth dy ffrindiau a dy athrawon.

Ymweliad: Bu'r Adran Iau ar ymweliad ag Arddangosfa'r Amgueddfa Genedlaethol yn Ysgol Maesincla, Caernarfon. Cafodd pawb fore prysur o arsylwi ac ateb cwestiynau ar wahanol agweddau o natur, daearyddiaeth a hanes Cymru. Trist oedd clywed fod posibilrwydd na welir yr arddangosfa hon eto, oherwydd diffyg arian.

Ymwelydd: Cafodd yr ysgol bleser mawr o groesawu y Parch John Morris, Brynrefail i'n harwain mewn gwasanaeth boreol. Diolch o galon iddo.

Dyna ni am y tro. Hwyl i chi - a 'drychwrch ar ôl eich hunain.

CLWB IEUENCTID: Agorwyd y clwb unwaith eto ar y 7fed o Fedi ar ôl cau dros wyliau'r haf.

Yn dilyn ymadawiad Mrs Morfudd Tomos o'r clwb y tymor diwethaf, rydym wedi cael Is-arweinydd newydd y tymor hwn. Ei henw yw Mrs Sulwen Roberts, a chroesawn hithau i'n clwb. Hefyd, etholwyd swyddogion newydd y tymor yma. Ein Cadeirydd yw Kelvin Houston, ein Ysgrifennydd yw Nia Wyn Huws a'n Trysorydd yw Christopher Hobby. (Ac wrth gwrs, mae Carys Williams yn benderfynol o redeg y caffl bob wythnos!)

Yn ystod yr wythnosau nesaf, gobeithiwn y cawn gyfle i gymeryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ac y cawn dymor yr un mor llwyddiannus ag a gawsom y tymor diwethaf.

Nia a Mared



**PEIDIWCH A GORI
AR STORI!
RHOWCH HI I'CH
GOHEBYDD LLEOL**

**GWASANAETH FIDEO
PROFFESIYNOL AR
GYFER UNRHYW**

ACHLYSUR

- * Dyweddiad
- * Priodas
- * Pen-blwydd
- * Bedydd
- * Drama
- * Carnifal

Am fwy o fanylion
cysylltwch â
**John Blight
LLANBERIS
872 209**

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Mor hardd yw'r Fro am harddel
Yn gain i bob un a'i gwêl;
Bro annwyl tal ei brynau
Pwer ei hud sy'n parhau.
Y Fro deg lleufer ei dawn
Mawreddog ac amryddawn;
Ein heniaith sydd yn ffynnu
Yn frwd yn y cwmwd cu;
Y teidiau hen atdynnodd
Rhith y bau oedd wrth eu bodd.

Hyfrydol ydyw golud
Y gwâr a da, gorau dud.
Y Rhyddallt sydd yn rhoddi
Ei gwaddol llesol yn lli,
Yn llathraidd rhwng y llethrau
I ddyfnion eigion yn gwau.
Arian loer a'i rhiniol hud
A hofran uwch Fryn Hyfryd,
Uwch y Cwm bwrllwm i'r bau
Hen ledrith ei phelydrau.

Adar ganant o goedydd
Eu dyri dêg drwy y dydd;

Deunoda côg o glogwyn
I annos y llinos o'r llwyn;
Yn herciog hed ehedydd
O dwyn i gyfarch y dydd;
A'r gwalch o'i glwyd gwyd yn gél
I yrru tua'r gorwel;
Yn oriau'r hwyr, arwahan,
Lleddf yw cri y ddylluan.

Yno oedd man fy ngeni
Yno'r oedd fy naear i.
Hon oedd gardd fy nyddiau gwyn
Noddfa fy mebyd addfwyn;
Hon y fam rodd i mi faeth
Hen olud yn gynhaliath;
Rhoi yn hael o'i rhin a'i hedd
A magu fy edmygedd.

Yno yr âf rhyw Haf hir
A hudol fydd y frodir,
Yfed gwin yr henfyd gaf
"Yn gywir hon a garaf".

Robert Henry Parry
(gynt o Gwm y glo)

RHOI TREFN AR Y TAFODIEITHOEDD

Ddechrau Awst eleni cyhoeddwyd y llyfr cyntaf erioed i ddisgrifio tafodieithoedd y Gymraeg.

Mae Peter Wynn Thomas, Darlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd, a Beth Thomas, ymchwilydd yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, wedi cydweithio i gynhyrchu llyfr a chaset a fydd yn olrhain y gwahanol dafodieithoedd.

Ar gyfer y llyggyr yr ysgrifennwyd y llyfr, ac felly gwnaethpwyd ymdrech arbennig i osgoi defnyddio termau technegol. Am y tro cyntaf, felly, bydd gan y Cymro Cymraeg gyfle i weld sut y mae ei iaith yn gwahaniaethu oddi wrth iaith ardaloedd eraill.

Cymerodd y llyfr ddwy flynedd i'w gwblhau, ond mae'n crynhoi gwaith ymchwil a wnaethpwyd ar y tafodiaithoedd dros yr hanner canrif diwethaf.

Mae'r caset yn cynnwys enghreifftiau o 14 darn o dafodiaith naturiol, a'r llyfr yn cynnwys trawsgrifiadau o'r darnau a nodiadau ar eiriau diddorol.

Disgwylir y bydd y llyfr a'r caset yn cael eu croesawu gan

nifer o grwpiau o bobl, e.e. athrawon ysgol sydd yn paratoi cyrsiau ar gyfer y TGAU, dosbarthiadau nos, dysgwyr sydd yn dymuno meithrin acen leol, ac actorion sydd am ddysgu sut i efelychu acenion gwahanol ardaloedd.

Bydd croeso arbennig i'r llyfr yn adrannau Cymraeg y Brifysgol lle yr astudir Tafodieithog. Hyd yn hyn ni fu llawer o ddeunydd darllen ar eu cyfer: dim ond traethodau ymchwil ac ambell erthygl mewn cylchgrawn academaidd.

Tanlinellir yr angen am lyfr o'r fath gan y niferoedd sydd yn dymuno astudio'r Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Coleg Caerdydd, y coleg sydd yn arbenigo ar gynnig cyrsiau ar weddau cyfoes ar yr iaith fel Tafodieithog, Dwyieithrwydd, Adfer iaith a chysiau ar y cyfryngau. Rhwng 1988/89 ac 1989/90 dyblodd nifer y ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr am le i astudio yn yr Adran Gymraeg Caerdydd.

Cyhoeddir *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg*: Cyflwyno'r *Tafodieithoedd* gan Wasg Taf. Pris: £6.95.

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

CLWB ERYRI: Bydd cyfarfod cyntaf y tymor yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis nos Wener, Hydref 6 am 7.30 pan y ceir sgwrs gan Lywydd y tymor, Mr Iolo Huws Roberts. Swyddogion y tymor yw Is-lywydd: Mr Arfon Jones, Caernarfon; Trysorydd: Mr Ieuan Ellis Jones, Llanberis; Cofnodydd: Mr J Hugh Hughes, Llanberis gyda Mr Rol Williams, Waunfawr yn Ysgrifennydd.

MERCHED Y WAWR: Ym mis Mawrth 1988 lansiodd y Comisiwn Cefn Gwlad a Phwyllgor Tywysog Cymru gynllun i annog pobl i fwrw golwg beirniadol dros eu cymunedau. Enw'r cynllun hwn yw y 'Jigso Lleol'. Ei fwrriad yw annog cymunedau i wneud arolygon o'u hardaloedd lleol gyda'r bwriad o dynnu sylw at eu nodweddion arbennig, eu problemau a'u anghenion. Yn ogystal â bod o ddiddordeb cyffredinol teimlir y gallai arolygon o'r fath gael eu defnyddio gan gymunedau unigol i gynnig rheswm dros wella eu gwasanaethau lleol, cyfleusterau a'r amgylchedd.

Mae Merched y Wawr wedi cytuno i wneud Arolwg Ieithyddol, fel eu cyfraniad i'r Cynllun Jigso Lleol.

CRONFA'R GANOLFAN: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst: £40: Mrs I Roberts, Pant Têg; £25: George Taylor, 10 Dol Erddi; £10: Mrs R A Hughes, 15 Tref Eilian.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun, Hydref 30 yn y Ganolfan pan y ceir ail ran darlith y Parch Huw Jones, Rhuddlan ar "Ochr ddigri fy Ngweinidogaeth". Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd gan obeithio y bydd y tymor mor llwyddiannus a'r rhai blaenorol.

CYDYMDEIMLO: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu y diweddar Mr Idris Humphreys, Arwel (gynt).

LLONGYFARCHIADAU i Geraint a Veronica, Cil-y-Mynydd ar enedigaeth mab bychan, Marc Richard ac i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan ar ddod yn nain i'r bychan;

- i Mr a Mrs Gwilym John Roberts, Llwyn Celyn ar ddod yn daid a

nain unwaith eto, ganwyd mab bach i'w mab Tony a'i wraig Glenda;

- i Helen Hughes, Stad Tref Eilian ar gyrraedd ei deunaw oed, a hwyl fawr iti yn y coleg, Helen;

- i Alan John Benham, 'The Haven', ar ei briodas â Tracey Ann o Fethel;

- i Iorwerth Williams, Heli, ar ei benodiad i swydd newydd yn Llundain;

- i Joanne Tame, Stad Glyn Afon ar gael ei phenodi yn ddirprwy brif ddisgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen.

AR Y TELEDU: Y rhai ohonoch sydd yn gwylio Sianel S4C yn gynnar gyda'r nos, rwy'n siwr ichi weld rhai wynebau cyfarwydd iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, a rhai yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Da iawn chi, Euros, Telor, Huw a Llion.

ADREF O'R YSBYTY: Da deall fod Mrs Lewis, Ysgoldy, wedi cael dod adref o'r ysbyty. Gobeithio eich bod yn dal i wella.

EISTEDDFOD YR ARDAL: Cynhelir yr Eisteddfod eleni yn y Ganolfan ar ddydd Sadwrn, Hydref 14. Bydd cyfarfod y prynhawn yn dechrau am 12.30 o'r gloch a chyfarfod yr hwyr am 6.00 o'r gloch. Tâl mynediad i'r cyfarfodydd fydd 40c (pnaun) a 40c (hwyr) - bydd y plant yn talu 10c wrth y drws.

Bydd cyfle i gael lluniaeth ysgafn rhwng y ddau gyfarfod yn y Ganolfan, ni fydd angen i chi fynd adref. Yn ôl yr arfer bydd y pwyllgor yn hynod ddiolchgar am rod-dion o gacennau tuag at y caffi.

BEIRNIADU GWAITH AT YR EISTEDDFOD: Bydd y gwaith llaw, arlunio a chogionio yn cael ei feirniadu yn yr ysgol am 6.0 o'r gloch nos lau, Hydref 5ed. Os gwelwch yn dda dewch a'r cynnyrch i'r ysgol erbyn 5.45 o'r gloch. Y dyddiad olaf i dderbyn yr holl waith llên yw Medi 30.

YR URDD: Gafwyd noson i ail agor tymor yr Urdd ar nos Fercher, Medi 13, a daeth nifer dda ynghyd i ymaelodi. Mae croeso i unrhyw un rhwng saith oed a phlant yn y flwyddyn gyntaf yn Ysgol Syr Hugh Owen ymuno â'r Urdd, a mynychu'r cyfarfodydd am 6.0 o'r gloch bob nos Fercher yn y

Ganolfan.

Nos Fercher, Medi 20 cafwyd Helfa Drysor wedi ei threfnu gan Beryl Jones ac Alma Jones, ac ar Fedi 27 cafwyd noson yng ngofal Gareth Jones a Don Roberts.

Swyddogion yr Urdd yw Mrs Gillian Wyn (Llywydd); Mrs Nan Roberts (Ysgrifennydd); Mr Dafydd Owen (Trysorydd). Diolch yn fawr i Mrs Beryl Jones a Mr Gareth Jones am eu cyfraniad

gwerthfawr i'r Urdd yn ystod y blynyddoedd a aeth heibio.

ENILLWYR CLWB Y BLAID: Mis Medi: 1. Mrs M V Jones; 2. Jean Jones; 3. Beryl Jones.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mrs K Wyn Jones, Bror Eifion a Neville Owen, Bryn Gwylan, sydd yn yr ysbyty ym Mangor. Dymuniadau gorau am wellhad buan i chi.

DATBLYGLAD CYFFROUS AR RADIO CYMRU

Gyda Radio Cymru yn dathlu ei ddegfed pen-blwydd eleni, bydd newidiadau sylfaenol ym mhatrwm y gwasanaeth. Wedi bron i ddeud-deng mlynedd o amgylch y Bwrdd Brecwast Cynnar mae Hywel Gwynfryn yn newid ei gyfarchiad o HELO BOBOL i PNAWN DA I CHI. Bob prynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener, gwahoddiad i rannu panad fydd hi rhwng 3.30 a 5.00 o'r gloch. Bydd llawer o elfennau poblogaidd y bore yn y rhaglenni newydd a phwyslais arbennig ar newyddion bro.

Yn cymryd lle HELO BOBOL yn y bore mae HEDDIW, rhaglen sy'n anelu at fod yn Bapur Newydd dyddiol i Gymru gyfan. Fe ddaw'r rhaglen newydd o Fangor gyda Vaughan Hughes a Chaerdydd gyda Russell Isaac. Bydd yn adlewyrchu bywyd beunyddiol Cymru a'r Byd mewn dull poblogaidd a sionc gyda gohebwyr ymhob cwr o'r wlad.

Datblygiad cyffrous arall yw HWYRACH, rhaglenni gyda'r nos o 10.00 i 11.30, gydag apêl eang - rhaglenni bywiog yn adlewyrchu diddordebau amrywiol. Bydd nifer o gyflwynwyr newydd ifainc ac ambell hen ffefryn.

Unwaith eto mae Radio Cymru yn torri tir newydd trwy fod dwy o raglenni hwyr y nos yn cael eu cynhyrchu gan Gwmni Annibynnol, Cwmni'r Hydd, i'r BBC.

Gyda'r datblygiad newydd mae Golygydd Radio Cymru yn teimlo'n hyderus iawn wrth wynebu'r ddegawd nesa. "Mae gennym dîm o gynhyrchwyr a chyfranwyr sy'n llawn egni a brwdfrydedd ac yn edrych ymlaen at gyfnod cyffrous o ddarlledu Cymraeg."

BLAS BRO

Un o ffenomenau anhygoel y

degawd diwetha 'ma yng Nghymru yw tyfiant a llwyddiant ysgubol y Papurau Bro. Maen nhw'n ddarllen difyr i gynulleidfa oedd eu broydd eu hun ond ychydig iawn y tu allan i'r fro sy'n eu gweld. Yn y gyfres BLAS BRO, cawn bori yn y papurau bro dros y blynyddoedd a dewis straeon difyr gwreiddiol, atgofion a hanesion am bobl a lleoedd i'w cyflwyno ar lafar. Byddant yn cael eu darllen gan bobl sy'n gysylltiedig â'r papur a chyfle gwych felly i Gymru gyfan o'r Dinesydd i Bapur Menai, o Nene i Clonc, fwynhau y gorau o'r papurau.

DRAENOG



NEWYDDION CLEGIR


Ni chynhelir cyfarfod i ddathlu buddugoliaeth Selwyn Griffith y mis hwn. Dywedodd y Prifardd "Doedd yna'r un noson ddathlu sbâr ar ôl. Ta waeth, dydw i ddim yn un sy'n hoffi gormod o ffys a lol."

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

CYDYMDEIMLIR â Mr W. E. Williams, Arfryn, yn ei brofedi-gaeth o golli ei fam yn Llandwrog.

Dymunir adferiad iechyd i Mrs E. V. Jones, Cenlys, Rhythallt Terrace, sydd wedi derbyn llaw feddygaeth yn Ysbyty Gwynedd. CYMDEITHAS LENYDDOL: Bydd tymor Cymdeithas Llenyddol Capel Mawr, Llanrug yn dechrau ar nos Fercher 18 Hydref am 7.30. Fel arfer, bydd yn cyfarfod yn y Festri, a bydd y noson agoriadol yng ngofal Parti Wygr o Gemaes. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu, a bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

YSGOL FEITHRIN: Bydd caban yr Ysgol Feithrin yn cael ei symud o Ysgol Brynrefail i fuarth yr Ysgol Gynradd yn ystod wythnos hanner tymor (Hydref 23). Byddwn yn peintio'r adeilad yn ystod ail hanner yr wythnos. Os oes unrhyw un yn fodlon helpu cysylltwch â Gwenda Roberts, Caernarfon 5649.

DIOLCHIADAU:

Dymuna Mr Harry Roberts, 2 Plastirion Terrace, ddiolch i'r teulu a llawer o ffrindiau, pell ac agos, am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 80 oed ar 12 Awst. Hefyd dymuna ei fab, Hefin a Daphne, Caerdydd, ddiolch i'w ffrindiau a'r teulu am anrhegion a chardiau o Lanrug ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar 8 Awst. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mr Alun Rowlands, 5 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna teulu y diweddar Meirion J. Parry, Tir-na-Nog, Llanrug, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atom yn ein profedigaeth.

Diolch am y cardiau, llythyrau a'r galwadau ffôn sydd yn rhy niferus i'w hateb, a llawer a ymwelodd.

Diolch i'r Parch D. J. Pritchard am ei wasanaeth ac hefyd i Mr M. Pritchard am y trefniadau. Trosglwyddyd y rhoddion tuag at Glefyd y Galon. Diolch yn fawr iawn - Mair.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Harry Roberts, 2 Plastirion Terrace ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed. Un o frodyr Llanrug yw Harry,

wedi ei eni a'i fagu yn Buarthau, ac wedi bod yn aelod o Fand Arian Llanrug am 53 o flynyddoedd. Hir oes eto Harry. Hefyd dymuniadau gorau i'w fab Hefin a'i wraig ar ddathlu eu Priodas Arian. Mae Hefin yng Nghaerdydd, ac mae ganddynt ddau o blant. Hwyl fawr i'r ddau deulu.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Mair Parry, Tir-na-Nog, Stâd Bryn Moelyn, ar golli ei gwr Meirion.

MARWOLAETH: Yn Ysbyty Bryn Seiont, 13 Medi, bu farw Mrs Kate Olwen Owen, Wenllys, Gwêl Fynydd, yn 87 oed. Hi oedd merch ieuengaf David a Jane Owen, Rhos Ddu, a gynt o Ty Capel, Capel Mawr. Bu'n byw yn Rhiwlas am dros ddeugain mlynedd wedi iddi briodi Robert Owen, chwarelwr a chynghorydd lleol, ond fe ddychwelodd i Lanrug deuddeg mlynedd yn ôl. Bu'r angladd 16 Medi gyda gwasanaeth yng Nghapel Mawr ac yna ym mynwent Pentir. Gwasanaethwyd gan y Parchn John Morris ac Erfyl Blainey. Cafodd teyrnged y Parch W. O. Roberts i Mrs Owen ei ddarlenn gan ei briod, Mrs Nancy Roberts. Cydymdeimlir a mab Mrs Owen, Mr Gwynhaf Owen, Caerdydd, ei wraig Mair a'u plant Awen ac Elen yn eu profedigaeth.

Dymuna teulu'r diweddar Mrs Kate Olwen Owen ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth, ac am y llu o gyfraniadau ariannol tuag at Uned Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont.

RHODDION: £5 gan Mr a Mrs H. Roberts, Plas Tirion, Llanrug; £3 gan Mrs Mair Parry, Tir-na-Nog, Stâd Bryn Moelyn, Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Griff Roberts, Ty Gwyn, Llanrug ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau, cymdogion, plant Ioan Sant oll, meddygon Waunfawr ac Ysbyty Gwynedd am yr holl ddymuniadau da, yr anrhegion, y llu cardiau a phob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd a'r Heath Caerdydd.

CHWIORYDD PONTRHYTHALLT: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd pnawn lau, Medi 21 yn Festri Pontrhythallt. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs C Williams, Hafan Elan a llywyddwyd gan Mrs J Williams, Bod Fair. Cafwyd

PLANT LLANRUG YN Y TRIDEGAU



Ysgol Ganol Llanrug 1935, Rhes gefn, chwith i'r dde: Derek, Iorwerth, Renald, Gwilym, Richie; Rhes ganol: Olwena, Eurwen, Mair Wyn, Mair, Beryl, Ellen, Gwyneth; Rhes flaen: Aled, Fred, Bertie, Francis, Hubert, Tommy. Lluniau gan Mrs E Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug.



... tair blynedd yn ddiweddarach, Rhes gefn: Iorwerth, Derek, Howel, Richie, Dick, Francis; Rhes ganol 1af: Ellen, Mair Wyn, Mair, Beryl, Eurwen, Mary, Eirlys; 2il Res ganol: Aled, Will, Rita, Olwena, Gwyneth, Hubert, ?; Rhes flaen: ?, Gwilym, Herbert, Renald.

sgwrs ddiddorol gan Mrs J Roberts, Elidir View ar 'Atgofion o Ddinorwig'.

Rhoddwyd y te gan Mrs A Parry, Bryn Coch, Mrs C Williams, Hafan Elan a Mrs J Roberts, Elidir View. Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 19 am 2 o'r gloch.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd y gangen yn yr Ysgol Gynradd ar Fedi 12, dan lywyddiaeth Mrs Ann Ifans.

Agorwyd drwy gyd-ganu Cân Merched y Wawr. Anfonwyd cydymdeimlad y gangen i Mrs Valmai Barnad yn ei phrofedigaeth o golli merch, a hefyd Mrs Janice Jones sydd wedi colli ei mam.

Y wraig wadd oedd Mrs Mary Vaughan Jones a roddodd hanes

manwl o'i thaith trwy'r India, a dangosodd sleidiau o olygfeydd gogoneddus o'r wlad. Cafwyd mwynhad mawr o wrando arni a diolchwyd yn gynnes iddi gan Mrs Menna Williams.

Rhoddwyd a pharatowyd y baned gan ferched Penisarwaun, diolchwyd iddynt gan Mrs Meryl Green. Enillydd y raffl oedd Mrs Eileen Thomas. Dewiswyd Mrs Menna Williams i ofalu am Lyfr Lloffion y gangen yn ystod y tymor. Cafwyd gwirfoddolwyr i ymuno â'r cynllun 'Jig-Sô Lleol'.

GWELEDD: En cydymdeimlad ag Emyr Jones, 44 Glangfynnon sy'n dioddef ar ôl cael ei daro'n wael yn dilyn gwyliau'r teulu yn Tenerife. Ein dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan iddo.

YSTORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn:
Caernarfon 2790

Ar agor:
Llun - Gwener: 7.30 - 6

Sadwrn: 8 - 5

Sul: 9 - 12

Eich siop leol hefo'r
oriau hwylus

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (831043)

LLONGYFARCHIADAU i Michelle ac Arfon ar enedigaeth eu merch fach gyntaf - Mary Laura.

Hefyd i Jackie a Paul ar enedigaeth eu merch fach hwythau - Jade Ann.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Nia Jones, Dol Peris Bungalows a John Williams ar achlysur eu priodas ar Fedi 2il.

ac hefyd i Judith Foulkes, Dol Elidir a Peter o Manceinion ar achlysur eu priodas hwythau ar Fedi 9fed.

CYDYMDEIMLWN â Huw Jones, Maes Padarn a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli brawd;

- â Valmai a Louise Bernard, Stryd y Dwr a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli merch a chwaer, Emma;

- â theulu Mr Jo Thorne, Maes Padarn yn eu profedigaeth hwythau;

- ac â Gwynfor Jones, Dol Elidir a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam a nain o Gaernarfon.

ADFERIAD: Dymunwn adferiad buan i Andrew, Prince of Wales, sydd yn yr ysbyty ar ôl cael damwain;

- i Mrs Mary Prichard, 14 Charlotte Street, sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty.

- i Mr Bob Jones, Plas Pen Gwaith sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty;

- i Mrs Betty Hughes, Snowdon Street sydd yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl. Brysia wella Bet.

Hefyd anfonwn ein cofion ar Mr Huw Roberts, Maes Padarn.

NOSON GOFFI: Cynhelir Noson Goffi yn Ysgol Dolbadarn ar Hydref 6ed gan staff y clinic. Dechreuir am 6.30 a bydd yr elw yn mynd tuag at Apêl Lowri, Llanrug. Os dymuna unrhyw un roi rhywbeth at y stondinau, fel cacen ac ati, cysylltwch â Mrs Mair Roberts (Mair Coed) neu unrhyw un o staff y clinic. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Jackie a Paul ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a staff a phlant Ysgol Pendar, Caernarfon am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Jade Ann.

LLONGYFARCHIADAU i Dewi Jones, Balaclava Road ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

DIOLCH: Dymuna John a Nia, Tyddyn Andrew, Bethel, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y llu anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas ar Fedi 2.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, 2 Medi yng Nghapel Coch, Llanberis, priodwyd Nia Pritchard Jones, Minffordd, Llanberis â Robert John Williams, mab Mr a Mrs William Arthur Williams, Cefn Isaf, Bethel. Gwasanaethwyd gan y Parch John Pritchard, BA, BD. Byddant yn ymgartrefu yn Tyddyn Andrew, Bethel. Dymuniadau gorau i'r ddau.

CYWIRIAD: Gellir cael fideo yn cofnodi 10 mlynedd o Garnifal Llanberis trwy gysylltu â John Blight ar Llanberis 872209 (nid 870209 fel y dywedwyd yn y rhifyn diwethaf).

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i Nan Griffiths, Maes Padarn sydd yn yr ysbyty.

I DENIS JONES AR EI YMDDEOLIAD O SWYDDFA BOST, LLANBERIS

Mae'r amser i'w ymddeol
O'r diwedd wedi dod,
A chlywir yr ardalwyr
Yn seinio'n glir dy glod;
Dim mwy o werthu stampiau
A trin y 'Giro Bank',
O hyn ymlaen cei hamdden
I grwydro'r Llan yn swanc.

Ni fydd rhaid poeni mwyach
Am drwydded ceir di-ri,
Na'r 'Postal Orders' dyrys,
Na thrwydded y TV,
Cei hepgor gwario amser
Ar y pensynwyr mād,
Caiff arall grafu eu pennau
A tithau'n braf dy stād.

Mi fyddi yn ddedwyddach
(Mae hyn yn ddigon gwir),
Heb boendod gwneud y cowntiau
A'r hen ffurflenni hir;
A phob dydd 'nawr yn wyliau
Pleserus fydd dy fyd,
Cei fynd a dod fel mynnot
'Rol bod yn gaeth cyhyd.

A 'Tegfan' fydd dy hafan
Yng nghwmni'r teulu bach,
I'r cownter bondigrybwyll
Yn awr cei ganu'n iach;
Ac felly, fy hen Gyfaill

AWEN R.E.

Ar bnawn Mercher y Brifwyl yn Llanrwst eleni cafwyd cyfarfod yn y Babell Lân dan gadeiryddiaeth Geraint Lloyd Owen i anrhydeddu R.E. Jones, Llanrwst. Yn ystod y cyfarfod teyrnged fe lansiwyd y gyfrol Awen R.E., sef casgliad cyflawn o englynion y llenor nodedig hwn o Ddyffryn Conwy.

Brodor o Langernyw yw R.E. Jones. Ar ôl graddio ym Mangor bu'n athro yn Ysgol Tal y Bont, Dyffryn Conwy am bum mlynedd. Yna yn 1943 fe'i penodwyd yn brifathro Ysgol Cwm Penmachno, a bu yno am ddeng mlynedd. Symudodd wedyn i Lanberis i fod yn brifathro ar Ysgol Dolbadarn, ac yno y bu nes ymddeol yn 1968. Y mae'n byw ers blyneddodd bellach yn nhref Llanrwst.

Er ei fod wedi cyhoeddi cryn dipyn - fe gofir yn arbennig am ei ddwy gyfrol ar Idioma Cymraeg - ac er bod nifer fawr o englynion o'i eiddo wedi'u cyhoeddi yma ac acw ar hyd y blyneddodd, y gyfrol newydd hon yw'r unig gasgliad cynhwysfawr o'i farddoniaeth.

Rhoddodd R.E. Jones oes o wasanaeth i Blaid Cymru. Bu'n ymgeisydd seneddol dros y Blaid yn Arfon ac yng Nghonwy ("Hyd y cofiaf ni'm hetholwyd!"). Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith am flynyddoedd o'r tridegau ymlaen, ac yn ogystal bu'n olygydd y Ddraig Goch.

Er na fu erioed yn gystadleuydd brwd mewn eisteddfodau, fe ddaeth yn gydradd gyntaf ar yr englyn yn Eisteddfod Caernarfon yn 1979, a gellid dweud ei fod

wedi cyrraedd pinacle ei yrfa gystadleuol ym Maldwyn ym 1981, oherwydd daeth yn gydradd gyntaf ag ef ei hun ar yr englyn; roedd dau englyn ganddo ymhlith y rhai buddugol ysgafn, ac roedd yn un o dri buddugol ar y limrigau.

R.E. Jones oedd Llywydd y Pwyllgor Gwaith pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Llanrwst ddiwethaf yn 1951, ac ef yn wir a fu'n gyfrifol am ddod ag Ymryson y Beirdd i'r Eisteddfod am y tro cyntaf erioed, gyda William Morris yn Feuryn. Tipyn o arbrawf oedd y peth ar y pryd, ond bu'n arbennig o lwyddiannus, a'r Babell Lân yn orlawn bob dydd - peth digon anghyffredin y dyddiau hynny. Bu R.E. ei hun yn cymryd rhan yn yr Ymryson yn rheolaidd hyd 1978.

Y mae'r gyfrol newydd hon o'i waith yn cynnwys englynion teyrnged i bobl a adnabu R.E. pan oedd yn byw yn Arfon, pobl megis y Parchedig J. Alwyn Parry, Capel Coch, Llanberis (t.62); Emlyn Jones, athro yn Ysgol Dolbadarn (t.67); Jim Parry, Caernarfon (t.79).

Cyhoeddir gan Wasg Gwynedd. Pris £3.50.

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Peter, Amanda, David, Stephanie a Nicholas Welsby, 1 Glanrafon Terrace yn eu profedigaeth o golli tad a thaid, sef Mr Eric Welsby o Frynrefail.

DRAENOG



Rhwydd hynt ddymunwn i,
I'r cwsmer fydd y golled,
A'r d'ennill fyddi di.

R H Parry
Ebrill 1989

Chefais i ddim gwahoddiad i'r briodas. Ond roedd y gwahoddiadau wedi eu hanfon allan mewn da o bryd i bawb gael amser i brynu dillad newydd. Ar wahan i un wrth gwrs. Roedd hi'n funud olaf arni'n prynu 'sgidia, a fawr o amser i'w mesur yn iawn. Y canlyniad? Cyrraedd y briodas hefo esgidiau o faint gwahanol - a mynd a nhw'n ôl i'r siop y dydd Llun canlynol. Ond cofiwch, doeddwn i ddim yn y briodas!



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

DINORWIG

Gohebydd: Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Y BYD A'I BETHAU: Cyn i bry-surdeb yr hydref a'r gaeaf ddechrau mewn gwirionedd caniatu rhyw egwyl fer i fwrw golwg digon arwynebol ar ddigwyddiadau ymhell oddi wrth ein bywyd lleol yn Ninorwig. Yn yr holl gyfandiroedd fe geir sôn am bethau cyffrous a brawychus yn digwydd. Fe welir China mewn rhyw wewyr chwyldroadol a nifer yn cael eu dienyddio, oherwydd methiant i gadw o fewn terfynau yn perthyn i gyfnodau boreol. Mewn rhannau o Dde Asia fe fu'r Americanwyr yn ceisio cadw rhyw fath o drefn a Phacistan hithau yn teimlo mai doeth oedd dilyn polisi- au cwbl newydd. Merch yno yn dilyn llwybr cwbl wahanol i'w thad. Dehau Affrica ar yr ochr arall yn chwilio am lwybr mwy goddefgar, ac yn dechrau ymrwngthod â bod yn anghyfeillgar yn barhaus â'r bobl oedd a lliw eu croen yn wahanol. Ein gobaith ninnau fel Cristionogion yw bod y pethau anymunol yn diflannu a bywyd llawnach yn mynnu ei le.

Nid oes heddwch perffaith chwaith yn y Dwyrain Canol, ac mae llawer yn pryderu ynghylch tynged Mr Terry Waite ac eraill a aeth i geisio cymodi'r pleidiau erlidgar. Feallai nad yw llyfr Salman Rushdie yn llawer o help chwaith yn y cyfeiriad hwn ac mae teitl y llyfr yn anffodus.

DOSBARTHIADAU NOS: Bellach mae dosbarth hwyrlo yr oedolion yn cyfarfod yn y Ganolfan a'r Parch John Gwilym Jones, Bangor yn ein cynorthwyo i werth-fawrogi trysorau llenyddiaeth Cymraeg a datgelu dirgelwch barddoniaeth gyfoes. Rhaid mesur barddoniaeth heddiw yng ngoleuni barddoniaeth y gorffennol a sylweddoli bod y naill yn perthyn i'r llall, ac onibai am yr hyn a wnaed yn y gorffennol ni ellid sylweddoli yn llawn werth y presennol.

COLLI CYFEILLION: Fe fuom yn sôn mewn rhifyn blaenorol am y rhai a fu o dan law'r meddygon, ac yn gorfod bod am gyfnod yn yr ysbytai. Erbyn hyn fe allwn ddweud i rai wella'n foddhaol, ond nid dyna fu hanes pob un ohonynt. Chwith yw meddwl y dylem gyfeirio bellach at y diweddard Mr Emlyn Griffiths, Bro Elidir. Fe dreuliodd yntau nifer o flynydd-

doedd lliwgar yn Ninorwig, ond bellach collasom ei gwmni.

Fe fu raid i ni hefyd ffarwelio â Mr John Emrys Morris a dreuliodd ei febyd ym 'Mryn Golau' cyn symud i fyw i Glwt y Bont. Perthyn i ddwy ardal oedd ef, ac fe roddodd o'i ddoniau i hyrwyddo gwaith Seindorf Arian Deiniolen a'r Cylch. Nid anghofiodd chwaith y gallai gynorthwyo i gyfoethogi caniadaeth y cysegr a'n paratoi ninnau mewn ymarferiadau i wneud ein rhan yng Nghymanfaoedd Canu ein henwad. Derbynied y rhai a adawyd ar ôl ein cydymdeimlad llwyr.

DYMUNIADAU GORAU: Tra'n dynmuno'n dda i Mrs Rene Morris sydd wedi symud o Faes Eilian i Bensiarwaun, fe allwn ddweud iddi ymdaflu i weithgareddau ardal Dinorwig, ac fe hoffem weld eraill o'r un anian â hithau yn dod i lenwi'r bylchau a chyfoethogi bywyd yr ardal yn gymdeithasol ac yn ddiwylliadol.

LLONGYFARCHIADAU: Hyfryd ydyw cael llongyfarch lona ac lfor Phillips ar enedigaeth eu hail blentyn, sef Sioned Mair - hithau'n chwaer i Donna. Fe gawn weld y ddwy yn cyd-dyfu ac yn sirioli'r aelwyd.

Fe ddeallwn bod Karen a Philip Jones, Ty Capel Sardis (B) wedi derbyn rhodd o fab - sef Gwilym Edwin - yntau'n frawd i Jennifer a Helen. Llongyfarchiadau iddynt ar gael plentyn arall i'r aelwyd.

ADFERIAD IECHYD: Ar ôl bod yn brys yn llywio'r brotest yn erbyn y cynlluniau estron yn Glyn Rhonwy, fe fu Mr Glyn Tomos mewn peth gwendid ond ar ôl iddo gael seibiant fe ddeallwn ei fod bellach yn ad-ennill ei nerth, ac yn eiddgar o hyd i gynnal yr hyn sydd orau yn ei ardal a'r cylchoedd cyfagos. Fe wyddom bod gelynion sy'n bygwth yr hyn y saif Glyn ac eraill drosto, a rhaid wrth ymdrech lew cyn y gellir eu gorchfygu a chadw i'r oesoedd a ddel yr hyn a enillwyd trwy frwydro'n galed, er teimlo siomedigaeth ambell dro.

GWYL DDIOLCHGARWCH: Cynhelir Gwyl Ddiolchgarwch Eglwys St Mair eleni ar ddydd Sul, 15fed o Hydref. Bydd gwasnaeth Cymun teuluol am 10 o'r gloch y bore dan ofal y Parch Tegid Roberts. Yna am 3.45 croesewir y

Parch Dewi Lloyd Lewis (Cymorth Cristionogol) i bregethu. Felly fe ddylai fod yn Wyl i'w chofio. Bydd croeso i bawb o enwadau eraill i ymuno ag aelodau St Mair yn y gwasanaethau hyn.

MARWOLAETH: Brynhawn Sul, Medi 3ydd 1989 yn Uned Gofal Arbennig Ysbyty Gwynedd, Bangor bu farw Mr Emlyn Griffiths, 8 Bro Elidir yn 69 mlwydd oed. Gwr Edith Mary, tad Sandra, Christine, David Emlyn a Marilyn Jean; taid i Susan, Yvonne,

Janice, Jason, Caroline, Mari a Sharon; hen daid Jonathan, Mathew ac Aaron. Brawd Gwilym, Stanley ac Edith a hanner brawd i Dora.

Ganwyd Emlyn Griffiths yng Nghwm-y-glo ond roedd yn byw yn Ninorwig ers tua 36 o flynyddoedd. Bu'r angladd ddydd lau, Medi 7fed gyda'r Parch J Pritchard yn gwasanaethu. Roedd y trefniadau yng ngofal E W Pritchard, Llanberis.

Y Daith i lawr Fachwen a thrwy Brynrefail

Nid oes unman harddach is y Nen
Na llethrau coediog y Fachwen
Ardal dawel gysgodol islaw Dinorwig
Lle tyf cymysgedd o goed meddal, a'r pin uchelfrig
Cartre'r fedwen, deri, onnen, drain a chollen
Cynefin y grug, eithin a'r bigog fwyren
Y griafolen hardd gyda'i sypiau coch-felyn
Lle mae'r brwyn a'r rhedyn yn gyflym oresgyn
Cwningod yn nhomenydd Chwarel Goch
Ar arwydd 'Ar Werth' eto ar Ty Coch
Gwartheg benthyg a digonedd o ddefaid
â'r clogwyni serth sydd ysgol ddringo prentisiaid
Gwelais fwch yn y clawdd mynd trwyddo oedd hawdd
A dyma fi ar lan y llyn, troedffordd lle bu rheilffordd
O'r Gilfach Ddu, arni rhedai'r Velinheli a'i gosgordd
Heddiw taith tren bleser hyd at Benllyn
Tywynnai'r haul, a crychai'r awel wyneb y llyn
Dyna amgylchedd fy nhaith hyd yma
Ond arhoswch, nid yw hyn ond coma.

Tenantiaid newydd sydd yma erbyn hyn
Ac eithrio'r rhai a lyn fel y dryslwyn gwyn
Y tai wedi ei diweddarau a'u paentio
A'r teledu yn hawlio lle'r organ a'r piano
Ffôn a thrydan dyma'r ddau brif gyfrwng
Cedwir y lamp a'r ganwyll gogyfer argyfwng
Bu newid arferion cymdogaeth a gwaith
Newid iaith fu'n achos mwy nag un graith
Eu gerddi sydd ymfrost i'w arddel
Gresyn na ellir rhoi yr un deyrnged i'r Capel.
Cofiais yr hen denantiaid, chwarelwyr dyddynwyr
Diwyd, diwylliedig ac enwog fel garddwyr
Organyddion, unawdwyr, arweinwyr a physgotwyr
Oedais i ryfeddu ar Bont Penllyn
A chofio trê'n o ddeutu'r llyn
Croesi'r enwog bont Trê'n Chwarel
A chyraedd pentref tawel Brynrefail
Cefais fraw, yr hen Ysgol enwog yn adfail
Meddyliais am yr enwogion addysgwyd ynddi
Beth ddywedai'r arloeswyr heddiw pe gwelent hi
Ai teilwng ei chyflwr a'u haberth hwy?
Ai cofeb i amarch fydd hi mwy?

Anhysbys.



**PEIDIWCH A GORI AR STORI!
RHOWCH HI I'CH
GOHEBYDD LLEOL**

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

Beth am ddysgu ddreifio gydag

YSGOL YRRU

BETHEL

Cysylltwch â

Richard M Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig 671009

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Dyddiadur y Mis

Hydref

1. **Sul:** LLANRUG: Capel Mawr, Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul, 10 y bore;
DEINIOLLEN: Gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yn Ebeneser, 2.00.
2. **Llun:** DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched.
3. **Mawrth:** LLANRUG: Cymhorthfa Dafydd Wigley, Ffestri Capel Mawr;
DEINIOLLEN: Undeb y Mamau, 7.00.
6. **Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed;
LANBERIS: Noson Goffi yn Ysgol Dolbadarn, 6.30;
YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd Llanberis, 7.30.
9. **Llun:** BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.
10. **Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr.
11. **Mercher:** LLANRUG: Plaid Cymru. Anerchiad gan Duncan Brown yn Yr Ysgol Gynradd, 7.30;
BETHEL: Merched y Wawr.
12. **Iau:** BETHEL: Yr Urdd.
14. **Sadwrn:** WAUNFAWR: Eisteddfod y Pentref;
LLANRUG: Eisteddfod y Pentref.
15. **Sul:** DINORWIG: Eglwys St Mair - Gwyl Ddiolchgarwch.
16. **Llun:** BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.
17. **Mawrth:** DEINIOLLEN:

Merched y Wawr;

- LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol.
18. **Mercher:** YSGOL PENISARWAUN: Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Bosra, 6.00;
LLANRUG: Capel Mawr, Cymdeithas Leynyddol, 7.30;
WAUNFAWR: Sioe Gynnyrch Sefydliad y Merched.
 19. **Iau:** PONTRHYTHALLT: Cymdeithas y Chwirydd.
 20. **Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed.
 22. **Sul:** PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Gwasanaeth Diolchgarwch.
 23. **Llun:** PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Ffair Gynhaef yn Neuadd yr Eglwys, 6.30.
 27. **Gwener:** Eisteddfod Gwaun Gynfi, Deiniolen.
 28. **Sadwrn:** Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi, Deiniolen.
 30. **Llun:** WAUNFAWR: Cymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan.
 31. **Mawrth:** LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

DIWRNOD
Menter

**PENDERFYNIAID
MWYAF
EU BYWYDAU
HYDREF 20.1989**



**RHAGLENNI AR RADIO CYMRU
A S4C TRWY'R DYDD**

Menter a Busnes

Yn Hybu Menter Siaradwyr Cymraeg

Menter a Busnes, Parc Gwyddoniaeth Aberystwyth, Aberystwyth, Dyfed SY23 3AH
Ffôn: 0970 625561 Ffacs: 0970 623311

AMGUEDDFA'R GOGLEDD YNNI CYMRU

Wythnos agored: 23 – 28 Hydref 1989

Cyfle ardderchog i weld yr arddangosfa newydd, sef YNNI-CYMRU, a chael taith i orsaf drydan **Dinorwig** yn RHAD AC AM DDIM!!!

Cyfyngir y cyfle hwn i drigolion plwyfi **Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug yn unig**. Gwneir y cynnig trwy garedigrwydd **Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac adran y Grid Cenedlaethol o'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan**. Bydd yr Amgueddfa ar agor o 10.00 a.m. hyd at 5.00 p.m. yn ddyddiol. Taith olaf i'r orsaf drydan am 4.00 p.m.

Dr Dafydd Roberts, Ceidwad

CHWARAEON

C'MON MIDFFILD

Roedd nos Iau, Awst 31ain yn noson go arbennig i bobl Llanrug a'r cylch. Cawsom gyfle i weld tîm Bryncoch United yn chwarae yn erbyn tîm Llanrug ar gae Eithin Duon. Roedd y nifer a ddaeth trwy'r clwydi y noson honno yn brawf fod y gyfres C'mon Midffild wedi bod yn un boblogaidd iawn. Dyna braf oedd gweld pawb mewn hwyliau da a phawb hefyd yn cefnogi'r ddau dîm.

Dim ond un o blith y dorf a gafodd ei siomi. Roedd y ferch ifanc yma wedi dod yno'n arbennig i weld Tecs (Bryn Fôn). Yn anffodus roedd Jean wedi rhoi ei throed i lawr y noson honno, ond buan y sylweddolodd y ferch ifanc fod George yno - heb Sandra.

Wedi gwirioni hefo Wali yn oedd y rhan fwyaf o'r dorf a chawsant dipyn o berfformiad ganddo yn ystod y gêm. Roeddem wedi disgwyl gweld Mr Picton yn dod 'later on' ond syndod i bawb oedd gweld Syr Wynff a Plwmsan yn cyrraedd mewn motobeic a sci-dear. Yr oedd Wali wedi cael cwmni wrth ei fodd.

Nid wyf am sôn am dactegau'r

gêm gan nad wyf yn deall pethau o'r fath. Ond yr wyf yn gwybod llawer am gostau symud caban yr Ysgol Feithrin ac yn gwybod hefyd fod y £400 o elw a wnaethpwyd ar y noson yn hwb sylweddol i'n cronfa.

Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch o galon i bawb a gyfranodd tuag at lwyddiant y noson. Diolch i dîm Bryncoch ac i Llion Williams yn arbennig am wneud y trefniadau. Diolch i dîm Llanrug a'u swyddogion am bob cydweithrediad. Diolch hefyd i Tony a Beryl Roberts, Gwesty Pen y Bont, am baratoi bwyd i'r ddau dîm.

Bydd C'mon Midffild yn ôl ar y sgrin ym mis Ionawr.



"Caiff dyn y moto beic 'ma fy helpu i fod yn leinsman,' medda Wali yn y llun uchod. Fel y gwelwch 'does gan Syr Wynff ddim diddordeb o gwbl mewn 'camsefyllian'.

PYSGOTA

Adroddiad H. P. Hughes

Aeth mis heibio heb ychwanegiad o gwbl yn lefel y dwr, a'r unig adroddiad sy'n dod yn ôl gan y 'sgotwyr yw'r rhai amdanynt yn dreifio o bont i bont gan chwilio am rywle i wylchu eu plu.

Fe gofiwch, rwy'n siwr, ddigwyddiadau gwarthus fis Mawrth y llynedd pan fu i nifer o ganwyr fynnu cael defnyddio'r afon! O ganlyniad daeth y Gymdeithas ag achos cyfrethiol yn erbyn dau berson ac un sefydliad fu'n flaenllaw yn y tresbasu hwn, sef Geoff W Wood o Swydd Efrog, Keith Raine o Lanrug a Chyngor Sir Caint (perchnogion Canolfan Awyr Agored Padarn Villa, Llanberis).

Fe gytunodd Raine a Chyngor Caint i beidio â thrangwyddo ar hawliau'r Gymdeithas eto, ac i beidio cynllwynio ag eraill i wneud hynny. Yn ogystal, fe gytunodd Caint i sicrhau na fyddai eu tir yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas hwnnw. Bu'n rhaid i'r ddau dalu £375 + TAW i'r Gymdeithas.

Fe wrthododd y Barnwr â gwrando ar ddatganiad gan Wood, gan ei geryddu am ei ymddygiad o'i flaen. Fe gytunodd yntau i'r un amodau, ac fe'i rhybuddiwyd gan y Barnwr ganlyniadau peidio â chadw ei addewid. Bu'n rhaid iddo ef dalu £375 + TAW i'r Gymdeithas yn ogystal â chostau o £250 i'r llys.

Gobeithiwn na welir fyth eto y math yma o ymddygiad.

YSGOL BRYNREFAIL

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Ian Hughes o Lanberis ar gael ei ddewis i chwarae yn nhîm dan 15 oed Ysgolion Gwynedd yn erbyn Sir Clwyd. De'llir iddo chwarae'n arbennig o dda mewn gêm gyfartal, dwy gôl yr un yn Llandudno. Yn ystod yr wythnosau nesaf fe chwaraeir gemau eraill rhwng y ddwy sir cyn dewis tîm i gynrychioli Gogledd Cymru yn erbyn tîm Ysgolion y De, y gêm honno'n dreial terfynol cyn dewis carfan y tîm Cenedlaethol.

Mae Mark Porter o Benisarwaun a Kevin Davies o Lanrug yng ngharfan Bechgyn Hŷn Ysgolion Arfon. Yn anffodus, mae Kevin wedi ei anafu ar hyn o bryd, ond gobeithir y bydd yn holliaich i chwarae yn nhreial tîm Gwynedd a gynhelir cyn diwedd y mis.

Criced

Fel yr adroddwyd eisoes, y mae nifer o ardalywyr bro'r Eco yn chwarae criced dros glwb Frondinas, ac ym muddugoliaeth ddiweddar y clwb yn ffeinal y cwpan Pike dros Alwminiwm Môn, Chris Tilston o Lanrug a enwebwyd yn 'man of the match' am ei berfformiad gyda'r bat a'r bêl. Fe sgoriodd 29 o rediadau heb fod allan, ac fe gymerodd ddwy wiced am bymtheg rhediad mewn wyth pelawd. Bu ei faesu brwdfrydig hefyd yn gyfrannol tuag at ei ddewis fel chwaraewr gorau'r gêm.

RYGBI IEUENCTID

Unwaith eto bydd Clwb Rygbi Caernarfon yn rhedeg tîm ieuencid ar gyfer hogiau rhwng 16 a 19 oed. Dalgylch naturiol y Clwb yw tref Caernarfon a Gwryfai, gan gynnwys Dyffryn Nantlle ac ardal Llanberis. Does dim angen profiad blaenorol yn y gêm, dim ond diddordeb a bod yn fodlon dysgu. Bydd y Clwb yn darparu'r hyfforddiant angenrheidiol a gemau ymarfer cyn chwarae gemau yn erbyn timau ieuencid clybiau eraill.

Gellir ymuno â'r grŵp ieuencid yn ystod sesiynau ymarfer y clwb ar y Morfa, rhwng 7 a 9 pob nos Fawrth a nos Iau. Yn ogystal gellir cysylltu â Clive James yn y Clwb Rygbi rhwng 9.30 a 10.30 nos Fawrth a nos Iau. Ffôn: Caernarfon 4513.

Y Tîm Cyntaf

Fe benodwyd Howyn Jones eleni yn gyd-reolwr â Dafydd Owen ar dîm cynta'r pentref. Mae'r tîm yn cystadlu yng Nghynghrair Gwynedd, a hyd yma'n mwy na dal ei dir ymhlith y goreuon.

Mae carfan o 18 chwaraewr wedi arwyddo, sef y rhai a welir yn y llun isod: B Johnson, Brian Griffiths, Dilwyn John Williams, Gwyn Davies, Emyr Humphreys, Gari Evans, David Philips, Dulwyn Morris, Dulwyn Roberts, Steven Williams, Adrian Wakeham, Kevin Williams a Peter Roberts, ynghyd â Gwilym Williams, Gwyn Morris, Colin Davies, E Jones ac N Jacks.



CLWB PÊL-DROED LLANRUG

Yr Ail Dîm

Yng Nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch y mae'r ail dîm yn cystadlu, ac maent wedi ennill pedair a dod yn gyfartal mewn 2 o'u 8 gêm hyd yma. Maldwyn Williams a Dafydd A Jones sy'n rhedeg y tîm, a chyda hwy yn y llun isod gweler Dafydd Jones, Alan Williams, Michael Owen, Martin Bohana, Gari Davies, Paul Owen, John Williams, Kevin Davies, Meirion Jones, Allan Roberts, Martin Hughes, Kevin Owen a Gwyn A Roberts. Y mae Derek Roberts, Ian Parry, Chris Flanagan a Barry John Jones hefyd ar y llyfrau.

